Blaenau Gwent County Borough Council



# Dogfen Ymgynghori Ffurfiol:

**I leihau capasiti'r ysgol gynradd, sy'n rhan o Gymuned Ddysgu Abertyleri, o 980 i 770, i leihau capasiti corfforol Cymuned Ddysgu Abertyleri drwy gau Campws Heol Roseheyworth a symud disgyblion i'r campysau sy'n weddill (Campws Six Bells a Champws Stryd Tyleri) gyda gweithredu'n raddol yn dechrau o fis Medi 2026 a chyda gweithredu'n llawn erbyn mis Medi 2027.**

**Cyfnod Ymgynghori::**
**Dechrau:** Dydd Llun 2 Mawrth 2026
**Gorffen:** Dydd Mawrth 14 Ebrill 2026

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn cydymffurfio gyda chanllawiau Cod Trefniadaeth Ysgolion (F2) Llywodraeth Cymru..

Cymunedau Dysgu Cynaliadwy
Sustainable Communities for Learning
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

## Ynglŷn â beth mae'r llyfryn hwn?

Fe baratowyd y llyfryn hwn ar gyfer rhieni/gofalwyr, staff ysgolion, llywodraethwyr ysgolion a chymuned ehangach Blaenau Gwent. Mae'r llyfryn hwn yn darparu trosolwg o'r broses ymgynghori sy'n gysylltiedig â chynnig y Cyngor i leihau'r capasiti cynradd yng Nghanolfan Ddysgu Abertyleri. Bydd o ddiddordeb arbennig i rieni/gofalwyr y mae eu plant yn mynychu neu â'u bryd ar fynychu Campysau Cynradd ac Uwchradd presennol Cymuned Ddysgu Abertyleri.

Os hoffech gael yr wybodaeth hon mewn unrhyw fformat arall, cysylltwch â'r Tîm Adnoddau a Chynllunio Addysg naill ai trwy anfon e-bost neu dros y ffôn, fel a ganlyn:

- **Anfonwch neges e-bost atom: 21stcenturyschools@blaenau-gwent.gov.uk neu,**
- **Ffoniwch ni ar: (01495) 311556**



**Rhestr termau –** Sylwer y defnyddir y termau canlynol drwy'r ddogfen hon:

| | |
|---|---|
| **Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)** | Mae gan ddysgwr ADY os oes ganddo/ganddi anhawster dysgu neu anabledd sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY). |
| **Canolfan Adnoddau (CA)** | Dosbarth bach mewn ysgol brif ffrwd i ddisgyblion ag ADY sylweddol. Ni fydd gan yr holl ddisgyblion sy'n mynychu CA ddatganiad o ADY. Mae disgyblion yn cael eu haddysgu gan athrawon arbenigol a chynorthwywyr cymorth dysgu. Weithiau mae disgyblion mewn CA yn cael cyfleoedd i fynychu dosbarthiadau prif ffrwd hefyd. |
| **Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)** | Proses electronig i gasglu data ar lefel disgyblion ac ysgolion yw CYBLD a ddarperir ym mis Ionawr bob blwyddyn gan yr holl ysgolion cynradd, canol, uwchradd, meithrin ac arbennig (ceir rhagor o wybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru). |
| **Cyngor neu Awdurdod Lleol (ALl)** | Sefydliad sy'n gyfrifol yn swyddogol am yr holl wasanaethau a chyfleusterau cyhoeddus mewn ardal benodol. |
| **Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)** | Mae'n nodi cynigion pob awdurdod **cynllunio lleol** ar gyfer **datblygu** a defnydd tir yn eu hardal yn y dyfodol. |
| **Hysbysiad Statudol** | Hysbysiad statudol yw pan fo cynnig y penderfynwyd yn derfynol arno'n cael ei gyhoeddi'n ffurfiol. Dim ond os yw Pwyllgor Gweithredol y Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen â chynnig y bydd hyn yn digwydd, a hynny yn dilyn ystyried yr holl ymatebion o'r broses ymgynghori. Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol fel a amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). |
| **Niferoedd ar y Gofrestr** | Nifer y disgyblion mewn ysgol (heb gynnwys disgyblion meithrin). |
| **Oedran Ysgol Statudol (OYS)** | Plentyn sydd dros 5 oed ac o dan 16 oed sy'n gymwys i fynychu'r ysgol. |
| **Ysgol Pob Oed** | Lle gall plant ddechrau yn dair neu bedair oed ac aros yr holl ffordd nes cyrraedd 16 oed gan fuddsoddi mewn un daith addysgol ddi-dor. Gall hyn fod ar nifer o safleoedd neu ar un safle |

# Tabl y Cynnwys


**Tudalen**

**Adran 1:** Cyflwyniad — 5

**Adran 2:** Y Broses Ymgynghori — 6
- Â Phwy Ydym Ni'n Ymgynghori? — 6
- Trosolwg o'r Ymgynghoriad — 6-7
- Ymgynghori â Phlant a Phobl Ifanc — 7

**Adran 3:** Y Cynnig — 7-8
- Amcanion Buddsoddi — 8
- Sail Resymegol a Gwybodaeth Gefndir – Pam fod angen newid — 9
- Y Galw am Leoedd — 9-11
- Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar a Meithrin — 11
- Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol — 12
- Opsiynau a Ystyriwyd — 12
- Risg a Lliniaru — 13
- Buddion y Cynnig — 13-14
- Buddion a Manteision Disgwyliedig (o'i gymharu â'r sefyllfa fel ag y mae – gwneud dim byd) — 15
- Anfanteision — 15-16
- Manylion yr Ysgolion yr Effeithir Arnynt — 16
- Data Cyrhaeddiad a Phresenoldeb — 16-17
- Model llywodraethu — 17
- Trefniadau teithio gan ddysgwyr — 17-18

**Adran 4**: Canlyniad yr Ymgynghoriad a'r Camau Nesaf
- Adroddiad Ymgynghori — 18
- Hysbysiad Statudol — 18
- Penderfynu Ynghylch y Cynnig — 18
- Hysbysu Ynghylch y Penderfyniad — 18
- Llinell Amser y Broses Statudol — 18

**Adran 5:** Manylion yr Ysgolion yr Effeithir Arnynt
- Data ar leoedd disgyblion ac amcanestyniadau — 19

**Adran 6:** Ystyriaethau Eraill — 19
- Cyllid — 19
- Costau Cyfalaf/Derbyniadau Cyfalaf — 20
- Trefniadau Derbyn — 20
- Effaith y cynnig ar y Gymraeg — 21
- Sgrinio'r Effeithiau ar Gydraddoldeb — 21
- Asesiadau o'r Effaith ar y Gymuned a'r Gymraeg — 21
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) — 22
- Ennyn Ymgysylltiad Plant a Phobl Ifanc â'r Ymgynghoriad hwn — 22
- Datblygiadau tai — 22
- Adnoddau Dynol — 22
- Partneriaethau — 23

23

**Adran 7:** Y Trefniadau Presennol
- Estyn 24
- Ansawdd a Safonau mewn Addysg 24
    - Lles ac agweddau at ddysgu 24
    - Addysgu a phrofiadau dysgu 24-25
    - Gofal, cymorth ac arweiniad 25
    - Arweinyddiaeth a rheolaeth 25
    - Argymhellion ar gyfer gwella 25
- Effaith y Cynnig 26

**Adran 8:** Trosolwg o'r Cynnig
- Nifer a threfniadau derbyn a nifer y lleoedd meithrin 27
- Ystod oedran 27
- Lleoedd disgyblion 27
- Capasiti 27
- Lleoliad 27
- Categori ac iaith yr ysgol 27
- Rhestr o adeiladau 27
- Rhestr o gyfleusterau a ddarperir dan y Cynnig 27
- Dalgylch yr Ysgol 27
- Trefniadau pontio 28
- Cwestiynau cyffredin 28

**Adran 9: Ffurflen yr Ymgynghoriad** 29

**Atodiad 1**: Rhestr Ddosbarthu ar gyfer y Ddogfen Ymgynghori 30

**Atodiad 2**: Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned 31-33

## Adran 1: Cyflwyniad



Fe sefydlodd Cyfarwyddiaeth Addysg Blaenau Gwent Gymuned Ddysgu Abertyleri ym mis Medi 2016. Mae'r gymuned ddysgu'n cynnwys tri champws cynradd sydd wedi'u lleoli ar Heol Roseheyworth, Heol y Chwe Chloch a Stryd Tyleri ynghyd ag un campws uwchradd ar Stryd Alma; sydd, gyda'i gilydd, yn ysgol pob oed.

Aeth bron i 9 mlynedd heibio ers rhoi'r trefniant ar waith, a thros yr ychydig flynyddoedd diwethaf bu gostyngiad mewn cyfraddau geni ledled y fwrdeistref sirol gan arwain at leoedd gwag.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn adolygu capasiti ei ysgolion yn flynyddol. Gan hynny, mae'r Cyngor yn ymateb i'r lefel uchel o leoedd gwag yng nghampysau Cynradd Cymuned Ddysgu Abertyleri.

Mae Cymuned Ddysgu Abertyleri'n darparu ar gyfer disgyblion (rhwng 3 ac 16 oed) dros 4 campws, gyda'r ysgol yn gweithredu ar y campysau canlynol:

- Campws Uwchradd Stryd Alma (Blynyddoedd 7 i 11)
- Campws Heol Roseheyworth (Meithrin i flwyddyn 6)
- Campws y Chwe Chloch (Meithrin i flwyddyn 6) a hefyd
- Campws Cynradd Stryd Tyleri (Meithrin i flwyddyn 6)

Mae'r ysgol pob oed yn cynnwys darpariaeth Canolfan Adnoddau gan yr Awdurdod Lleol hefyd, gyda darpariaeth gynradd wedi'i lleoli ar gampws y Chwe Chloch a darpariaeth uwchradd wedi'i lleoli ar gampws Stryd Alma.

Hefyd, mae campws Heol Roseheyworth yn lletya darparwr gofal plant allanol.

Cenhadaeth yr ysgol yw: ***Codi Dyheadau – Gwireddu Potensial – Sicrhau Dyfodol***

Addysgir disgyblion dros 4 campws. Mae trefniadaeth y dosbarthiadau ar bob campws yn ddibynnol ar niferoedd y disgyblion ac yn cynnwys dosbarthiadau oedran cymysg. Mae cyfleusterau ar gyfer disgyblion uwchradd yn cynnwys dosbarthiadau pwrpasol, canolfan adnoddau ac ardaloedd lles ynghyd â defnydd ar y cyd o gyfleusterau Canolfan Chwaraeon Hamdden Aneurin gan gynnwys neuadd chwaraeon, campfa, cae 3G a phwll nofio.

Ceir hefyd ddarpariaeth amgen oddi ar y safle ar gyfer nifer fach o ddysgwyr Cyfnod Allweddol 4 a addysgir y tu allan i ddosbarthiadau prif ffrwd.

Mae gan ddisgyblion oedran cynradd fynediad at y ganolfan chwaraeon a'r pwll nofio hefyd yn ogystal â chyfleusterau ar y campws. Mae'r rhain yn cynnwys ardaloedd chwarae awyr agored yn ogystal â mannau mewnol megis ystafelloedd dosbarth, ynghyd â choridorau addysgu, neuaddau bwyta, ardaloedd lles a chanolfan adnoddau.

## Adran 2: Y Broses Ymgynghori

Cyn y gwneir unrhyw benderfyniad ynglŷn â'r cynnig hwn i leihau capasiti cynradd yng Nghymuned Ddysgu Abertyleri, mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal ymgynghoriad statudol ffurfiol gyda'r holl bartïon sydd â buddiant ac yr effeithir arnynt. Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd y ffaith y bydd campws cynradd yn cael ei gau gan ddadleoli nifer o ddisgyblion presennol mewn campysau ond gan leihau niferoedd y lleoedd gwag yn yr ysgol yn y pen draw. Mae'r adran hon yn darparu trosolwg o'r broses ymgynghori.

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn rhoi'r cyfle i ymgyngoreion ddysgu a deall mwy a mynegi eu barn am gynnig y Cyngor. Bydd adborth o'r ymgynghoriad yn goleuo'r penderfyniad terfynol o ran sut y bwriedir bwrw ymlaen â'r cynnig. Bydd yr adborth a'r sylwadau a gesglir trwy gydol y broses ymgynghori'n cael eu coladu, eu dadansoddi a byddir yn adrodd arnynt trwy brosesau gwleidyddol y Cyngor. Wedyn bydd Cabinet y Cyngor yn gwneud y penderfyniad terfynol yn seiliedig ar ganlyniad yr ymgynghoriad ac adborth sy'n gysylltiedig ag ef.

**Â Phwy Ydym Ni'n Ymgynghori?**
Bydd y Ddogfen Ymgynghori hon yn cael ei dosbarthu, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru – Fersiwn 2 (Tachwedd 2018). Mae **Atodiad 1** yn manylu ar y rhestr lawn o ymgyngoreion a fydd yn cael y cyfle i rannu eu barn yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad statudol.

**Trosolwg o'r Ymgynghoriad**
Bydd y cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynnig hwn yn dechrau ar **Ddydd Llun 2 Mawrth 2026**, ac yn dod i ben ar **Ddydd Mawrth 14 Ebrill 2026**. Gall ymgyngoreion gyflwyno eu barn ynglŷn â'r cynnig; fodd bynnag, dylid nodi na fydd ymatebion sy'n dod i law yn ystod y cyfnod hwn yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig. Dim ond yn dilyn cyhoeddi'r hysbysiad y gellir cofrestru gwrthwynebiadau. Os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, a bod ymgyngoreion yn dymuno cyflwyno gwrthwynebiad, bydd angen iddynt wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod cyfnod yr hysbysiad statudol a amlinellir ar dudalen 8.

Fe hoffai'r Cyngor i chi ystyried yr wybodaeth a nodir yn y ddogfen hon a rhoi eich barn ynglŷn â'r cynnig. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau ynghylch yr wybodaeth yn y ddogfen hon, neu os ydych yn dymuno awgrymu dewisiadau eraill yn lle'r cynnig, cysylltwch â ni naill ai gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost isod, neu drwy ein ffonio ar (01495) 311556.



21stcenturyschools@blaenau-gwent.gov.uk




Gallwch roi eich barn ynglŷn â'r cynnig gan ddefnyddio Holiadur yr Ymgynghoriad yn Adran 9. Mae croeso i chi hefyd gwblhau'r arolwg ar-lein gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol - https://online1.snapsurveys.com/n94ji6

Gallwch hefyd anfon eich sylwadau drwy'r post i: y Swyddfeydd Cyffredinol, Heol Gwaith Dur, Glyn Ebwy NP23 6DN

Dylid dychwelyd pob ymateb i'r ymgynghoriad erbyn **5pm Dydd Mawrth 14 Ebrill 2026, fan bellaf**.

Mae'r Tîm Adnoddau a Chynllunio Addysg wedi cynllunio cyfarfodydd rhithwir gydag Undebau Llafur a sesiynau galw heibio fel a nodir isod ar gyfer yr holl Gyrff Llywodraethu Ysgolion, staff, disgyblion, rhieni a'r gymuned ehangach yr effeithir arnynt trwy gydol y cyfnod ymgynghori. Ym mhob un o'r digwyddiadau isod yn **Nhabl 1**, bydd swyddogion y Cyngor ar gael i ateb unrhyw gwestiynau a all fod gennych.

**Tabl 1 – Sesiynau Galw Heibio**

| Lleoliad | Dyddiad | Amser(oedd) | Sesiwn wedi'i bwriadu ar gyfer: |
|---|---|---|---|
| CDdA – Campws Uwchradd, Stryd Alma, Abertyleri NP13 1YL | Dydd Mawrth 10 Mawrth 2026 | 3:30pm – 4:30pm | Staff |
| CDdA – Campws Uwchradd, Stryd Alma, Abertyleri NP13 1YL | Dydd Mawrth 10 Mawrth 2026 | 5:00pm – 6:00pm | Corff Llywodraethu |
| Y Metropole, Abertyleri NP13 1LA | Dydd Mercher 11 Mawrth 2026 | 3:00pm – 6:30pm | Rhieni a'r Gymuned Ehangach |
| Y Metropole, Abertyleri NP13 1LA | Dydd Mawrth 17 Mawrth 2026 | 3:00pm – 6:30pm | Rhieni a'r Gymuned Ehangach |
| Cyfarfod rhithwir ar Teams | Dydd Mercher 17 Mawrth 2026 | 1:00pm - 2:00pm | Cynrychiolwyr Undebau Llafur |

**Ymgynghori â Phlant a Phobl Ifanc**

Bydd cyfle i ddisgyblion Cymuned Ddysgu Abertyleri, ynghyd â phlant a phobl ifanc eraill sy'n debygol o fynychu'r ysgol, gyfranogi yn y broses ymgynghori. Bydd yr holl wybodaeth a gesglir o'r broses ymgynghori'n rhan o adroddiad alldro'r ymgynghoriad.

| Location | Date | Time(s) | Session aimed at: |
|---|---|---|---|
| CDdA – Campws Uwchradd, Stryd Alma, Abertyleri NP13 1YL | Dydd Mawrth 17 Mawrth 2026 | 10:00am – 11:00am | Cyfarfod Cyngor Ysgol |

Lle y bo'n bosibl bydd y tîm yn ymgysylltu â'r Fforwm Ieuenctid ac Uwch-Gyngor Plant Blaenau Gwent os bydd y cyfarfodydd a amserlennwyd ar eu cyfer yn digwydd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

## Adran 3: Y Cynnig

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig lleihau'r capasiti lleoedd cynradd ar y cyfan yng Nghymuned Ddysgu Abertyleri o 980 i 770 – gostyngiad o 210 o leoedd (21%) – trwy gau un campws cynradd. Yr opsiwn a ffefrir yw cau Campws Heol Roseheyworth, sydd â'r nifer isaf o ddisgyblion o oedran statudol ar y gofrestr (119) a'r lefelau uchaf o waith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni oherwydd oedran a chyflwr yr adeilad. Gellir rhoi lle i'r holl ddisgyblion sy'n mynychu Campws Heol Roseheyworth ar hyn o bryd ar safleoedd y campysau cynradd a fydd yn weddill.

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cefnogi uwch dîm arwain Cymuned Ddysgu Abertyleri i sicrhau parhad cyfleoedd dysgu cynradd o ansawdd da ar draws yr ysgol. Mae'r Cyngor yn dal i fod yn ymrwymedig i gydweithio gyda'r ysgol i ddatblygu cynllun hirdymor sy'n cefnogi twf, datblygiad a deilliannau gwell ar sail barhaus.

Felly, bydd y cynnig hwn yn cael ei gyflawni fel a ganlyn:

- **I lleihau capasiti'r ysgol gynradd, sy'n rhan o Gymuned Ddysgu Abertyleri, o 980 i 770, i leihau capasiti corfforol Cymuned Ddysgu Abertyleri drwy gau Campws Heol Roseheyworth a symud disgyblion i'r campysau sy'n weddill (Campws Six Bells a Champws Stryd Tyleri) gyda gweithredu'n raddol yn dechrau o fis Medi 2026 a chyda gweithredu'n llawn erbyn mis Medi 2027.**

Byddai'r cynnig yn ategu Gweledigaeth Blaenau Gwent ar gyfer Addysg fel a ganlyn:

***'Grymuso ein cymunedau i fod yn ddysgwyr gydol oes uchelgeisiol, egwyddorol a gwybodus sy'n byw bywydau llawn ac iach.'***

Mae'r cynnig yn gyson ag amcanion buddsoddi Blaenau Gwent a Blaenoriaethau'r Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (CDC), sef:

**Amcanion Buddsoddi**

- **Amcan Buddsoddi 1:** codi safonau a chyflawniad yn unol â thargedau lleol yn y Cyfnod Sylfaen, CA2, CA3 a CA4; a sicrhau pontio gwell i ddysgu ôl-16 – Byddai'r rhaglen yn ei gwneud yn bosibl darparu cyfleusterau addysg ac ymgysylltu gwell i ddisgyblion a theuluoedd fel ei gilydd, a fydd yn effeithio'n gadarnhaol ar ddysgu drwyddi draw.
- **Amcan Buddsoddi 2:** creu model cynaliadwy ar gyfer yr ystâd ysgolion, ynghyd â chyflwr ac addasrwydd adeiladau – Byddai'r rhaglen yn lleihau costau cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni ac yn gwella rhannau allweddol o'r ystâd ysgolion ac, o ganlyniad, yn creu ystâd ysgolion fwy cynaliadwy.
- **Amcan Buddsoddi 3:** sefydlu trefn effeithiol o reoli a darparu lleoedd mewn ysgolion, trwy fod â'r ysgolion cywir o'r maint cywir yn y lle cywir – byddai'r rhaglen yn creu ysgolion sy'n gweddu'n well i anghenion y boblogaeth disgyblion gyfredol a rhagamcanol ynghyd â'u teuluoedd; bydd hyn yn sicrhau bod y cyfleusterau'n gallu diwallu'r angen lleol a rhanbarthol.
- **Amcan Buddsoddi 4:** rhoi'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ar waith yn unol â pholisi trefniadaeth ysgolion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol; - byddai'r rhaglen o gymorth i roi datblygiadau strategol a pholisi allweddol ar waith, gan gynnwys yr agenda Ysgolion Bro a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.
- **Amcan Buddsoddi 5:** diwallu anghenion dysgwyr agored i niwed – byddai'r rhaglen yn ymdrin ag anghenion cyfredol ac anghenion a ragwelir o ran y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY o safbwynt dysgu ac o safbwynt hamdden/chwarae. Hefyd, byddai'r rhaglen o gymorth i ymgysylltu â rhieni a disgyblion y mae arnynt angen cymorth parhaus ychwanegol er mwyn sicrhau presenoldeb cyson a safonau dysgu a chyrhaeddiad gwell.

**Sail Resymegol a Gwybodaeth Gefndir – Pam Fod Angen Newid**





Mae Cymuned Ddysgu Abertyleri'n darparu ar gyfer dysgwyr ar draws yr ystod oedran 3-16 ac fe'i sefydlwyd dan raglen ad-drefnu ysgolion ym mis Medi 2016. Ceir un Corff Llywodraethu ar draws pob safle. Mae'r uwch dîm arwain yn cynnwys un Pennaeth, dau Ddirprwy Bennaeth a phedwar Pennaeth Ysgol.

Ers ei sefydlu ym mis Medi 2016, roedd gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 750 o ddysgwyr yn y cyfnod uwchradd ac 840 o ddysgwyr o oedran ysgol statudol yn y cyfnod cynradd. Ym mis Medi 2019, fe gododd capasiti'r cyfnod cynradd i 980 o ganlyniad i gau Campysau Stryd y Frenhines a Bryngwyn i greu Campws Heol y Chwe Chloch a adeiladwyd o'r newydd. Fodd bynnag, dros y 7 mlynedd ddiwethaf mae cyfraddau geni wedi gostwng yn sylweddol ledled y Fwrdeistref Sirol. Gyda'r gostyngiad ar hyn o bryd yn y boblogaeth disgyblion yn ardal Abertyleri, mae wedi creu lleoedd gwag yn y campysau cynradd sydd wedi arwain at yr angen i leihau capasiti'r cyfnod cynradd.

Roedd canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch yr arfer presennol o ran defnyddio adeiladau ysgol gwag (Hydref 2014) yn argymell y dylai Cynghorau anelu at gadw dim mwy na 10% o leoedd gwag. Os yw'n llai na 7% gall fod pryderon ynghylch digonolrwydd lleoedd, ac os yw'n fwy na 15% gall fod angen tynnu niferoedd uwch o leoedd ac ystafelloedd addysgu allan o gapasiti adeiladau'r ysgol i weddu i anghenion yr ysgol.

Mae'r Cyngor yn rhagfynegi parhad yn y duedd tuag i lawr o ran y galw/niferoedd y disgyblion yn y dyfodol ar gyfer lleoedd yng nghyfnod cynradd Cymuned Ddysgu Abertyleri. Mae'r ysgol yn dal i fod â lleoedd gwag ac felly mae angen iddi ystyried opsiynau i leihau'r angen am 3 champws cynradd gan y gellir lleoli'r holl ddisgyblion cynradd dros 2 safle. Mae hyn hefyd yn creu pwysau ariannol ychwanegol ar yr ysgol.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn ceisio ymdrin â'r materion a grybwyllwyd uchod trwy leihau capasiti Cyfnod Cynradd Cymuned Ddysgu Abertyleri i gynnal y galw am leoedd.

**Y Galw am Leoedd**

Mae Cymuned Ddysgu Abertyleri yn Nyffryn Ebwy Fach lle mae'r galw am leoedd yn lleihau. Gallai hyn fod i'w briodoli i nifer o ffactorau megis gostyngiad mewn cyfraddau geni, dewis rhieni ac ati. Ym mis Medi 2017, roedd poblogaeth ysgol y Gymuned Ddysgu a oedd newydd ei sefydlu yn 875 yn y cyfnod cynradd, ac yn 613 yn y campws Uwchradd.

Mae **Ffigur 1** dros y dudalen yn darparu gwybodaeth hanesyddol a rhagfynegol am dueddiadau lleoli a gofynion lleoli a ragwelir yn y dyfodol yn yr ysgol.

**Ffigur 1 – Tuedd yn y Cyfnodau Cynradd ac Uwchradd dros y 5 mlynedd ddiwethaf a'r Amcanestyniadau dros y 5 mlynedd nesaf o ran Lleoli Disgyblion yng Nghymuned Ddysgu Abertyleri (yn seiliedig ar ddata ynghylch niferoedd ar y gofrestr.)**

| Cymuned Ddysgu 3-16 Abertyleri | Capasiti a Niferoedd ar y Gofrestr | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2020/21 | | 2021/22 | | 2022/23 | | 2023/24 | | 2024/25 | | 2025/26 | |
| | Capasiti'r Ysgol | Niferoedd ar y Gofrestr | Capasiti'r Ysgol | Niferoedd ar y Gofrestr | Capasiti'r Ysgol | Niferoedd ar y Gofrestr | Capasiti'r Ysgol | Niferoedd ar y Gofrestr | Capasiti'r Ysgol | Niferoedd ar y Gofrestr | Capasiti'r Ysgol | Niferoedd ar y Gofrestr |
| **Cynradd** | 980 | 637 | 980 | 747 | 980 | 702 | 980 | 685 | 980 | 672 | 980 | 615 |
| **Uwchradd** | 750 | 654 | 750 | 705 | 750 | 699 | 750 | 720 | 750 | 702 | 750 | 722 |

Mae'r gymuned ddysgu wedi cadw'r terfyn ar ei chapasiti am y 5 mlynedd diwethaf; fodd bynnag, yn 2025 gellir gweld, yn y campysau cynradd, bod oddeutu 365 (37.2%) o leoedd gwag.

**Ffigur 2 – Amcanestyniadau Disgyblion ar gyfer lleoedd Cynradd ac Uwchradd dros y 5 mlynedd nesaf yn seiliedig ar y Duedd yng Nghymuned Ddysgu Abertyleri.**

| Cymuned Ddysgu 3-16 Abertyleri | Amcanestyniad yn seiliedig ar y Duedd dros bum mlynedd ar sail niferoedd ar y gofrestr | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | 2029/30 | 2030/31 | 2031/32 |
| **Campysau cynradd** | 725 | 691 | 661 | 667 | 628 | 620 |
| **Campws uwchradd** | 714 | 679 | 670 | 688 | 664 | 652 |

Mae'r tabl uchod yn dangos gostyngiad pellach yn niferoedd y disgyblion, gan greu lleoedd gwag ychwanegol ar gyfer ffigyrau'r campysau cynradd a'r campws uwchradd.

**Ffigur 3 – Cymuned Ddysgu Abertyleri – Capasiti'r campysau, Niferoedd o Oedran Ysgol Statudol ar y Gofrestr ar gyfer Derbyn, Blwyddyn 1 i flwyddyn 11 (Yn seiliedig ar CYBLD mis Medi)**

| Cymuned Ddysgu 3-16 Abertyleri | Capasiti a Niferoedd ar y Gofrestr | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2020/21 | | 2021/22 | | 2022/23 | | 2023/24 | | 2024/25 | | 2025/26 | |
| | Capasiti'r Campws | Niferoedd ar y Gofrestr | Capasiti'r Campws | Niferoedd ar y Gofrestr | Capasiti'r Campws | Niferoedd ar y Gofrestr | Capasiti'r Campws | Niferoedd ar y Gofrestr | Capasiti'r Campws | Niferoedd ar y Gofrestr | Capasiti'r Campws | Niferoedd ar y Gofrestr |
| **Campws Heol Roseheyworth** | 210 | 174 | 210 | 144 | 210 | 164 | 210 | 154 | 210 | 151 | 210 | 127 |
| **Campws y Chwe Chloch** | 350 | 272 | 350 | 233 | 350 | 271 | 350 | 248 | 350 | 251 | 350 | 232 |
| **Campws** | 420 | 398 | 420 | 322 | 420 | 369 | 420 | 387 | 420 | 366 | 420 | 340 |
| **Cyfanswm** | **980** | **844** | **980** | **699** | **980** | **804** | **980** | **789** | **980** | **768** | **980** | **699** |
| **Cyfanswm y Campws Uwchradd** | **750** | **699** | **750** | **699** | **750** | **728** | **750** | **763** | **750** | **744** | **750** | **717** |

**Ffigur 4 Niferoedd Cynradd ym mhob grŵp blwyddyn yng Nghymuned Ddysgu 3-16 Abertyleri ar gyfer 2025 (Yn seiliedig ar ffigyrau data CYBLD mis Medi 2025)**

| Disgyblion fesul Grŵp BCC | D | Bl 1 | Bl 2 | Bl 3 | Bl 4 | Bl 5 | Bl 6 | OYS |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CDdA – Campws Heol Roseheyworth** | 9 | 27 | 21 | 23 | 19 | 17 | 11 | **127** |
| **CDdA – Campws y Chwe Chloch** | 35 | 30 | 27 | 41 | 35 | 29 | 35 | **232** |
| **CDdA – Campws Stryd Tyleri** | 40 | 35 | 49 | 58 | 45 | 54 | 59 | **340** |

Mae'r amcanestyniad ar gyfer niferoedd y disgyblion mewn perthynas â Chanolfan Ddysgu Abertyleri'n gostwng yn seiliedig ar y duedd. Mae'r Cyngor wedi defnyddio data hanesyddol a thueddiadau cysylltiedig. Mae'r Tîm Adnoddau a Chynllunio Addysg wedi ystyried nifer y ceisiadau derbyn dros y chwe blynedd academaidd ddiwethaf ac fe ragwelir y bydd nifer y derbyniadau'n lleihau oherwydd gostyngiad mewn cyfraddau geni.

**Ffigur 5 Nifer yn y Dosbarth Derbyn (Cyfrif Disgyblion 2025)**

| Cymuned Ddysgu Abertyleri | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Campws Heol Roseheyworth** | 26 | 27 | 21 | 26 | 9 | 25 |
| **Campws y Chwe Chloch** | 38 | 65 | 26 | 30 | 37 | 36 |
| **Campws Stryd Tyleri** | 76 | 78 | 47 | 36 | 40 | 41 |
| **Cyfanswm** | **140** | **170** | **94** | **92** | **86** | **102** |

**Ffigur 6 Nifer yn y Dosbarth Derbyn (Cyfrif Disgyblion 2025)**

| Cymuned Ddysgu Abertyleri | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Campws Heol Roseheyworth** | 19 | 18 | 18 | 21 | 26 | 9 |
| **Campws y Chwe Chloch** | 25 | 37 | 37 | 27 | 30 | 35 |
| **Campws Stryd Tyleri** | 59 | 43 | 44 | 51 | 35 | 40 |
| **Cyfanswm** | **104** | **106** | **99** | **99** | **91** | **84** |

Mae Cyngor Blaenau Gwent yn ymwybodol bod cyfraddau geni is ledled y sir ac mewn ardaloedd yn y Fwrdeistref Sirol sy'n sail i nifer yr ysgolion a niferoedd y disgyblion sy'n cael mynediad at addysg. Mae Awdurdodau Cyfagos wedi llunio cynigion Trefniadaeth Ysgolion hefyd gan arwain at ymgyngoriadau ynghylch cau ysgolion a niferoedd y lleoedd. Os na fydd Cyngor Blaenau Gwent yn ymdrin â lleoedd gwag yn unrhyw rannau o'i ystâd ysgolion gan gynnwys Cyfnod Cynradd Cymuned Ddysgu Abertyleri, fe allai hynny arwain at gostau refeniw uwch sy'n gysylltiedig â rhedeg nifer o ddarpariaethau ar wahân, ac mae hyn yn ei dro'n arwain at werth gwael am arian a all effeithio ar ddysgu ac addysgu.

**Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar a Meithrin**

Mae campws Cymuned Ddysgu Abertyleri yn Heol Roseheyworth yn lletya canolfan ar gyfer cyfleuster gofal plant preifat a weithredir gan MiniMe's. Nid oes unrhyw gynlluniau i'r Cyngor sefydlu cyfleuster amgen i hwyluso darpariaeth gyn-ysgol. Mae'r holl gampysau cynradd yn cynnig lleoedd Meithrin rhan-amser.

Felly, trwy gau'r Campws hwn disgwylir y bydd effaith uniongyrchol ar y ddarpariaeth gofal plant breifat hon. Fodd bynnag, bydd y gyfarwyddiaeth Addysg yn cynorthwyo'r ddarpariaeth a'r ysgol i sicrhau adeilad arall.

**Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol**
Ni fydd y cynnig i leihau'r capasiti gan ddefnyddio'r opsiwn a fefrir: cau Campws Cynradd Heol Roseheyworth yng Nghymuned Ddysgu Abertyleri yn cael unrhyw effaith ar y canolfannau adnoddau yn y Gymuned Ddysgu ehangach. Bydd yr un faint o ddarpariaeth ADY ar gael mewn campysau ac ni fydd y cynnig hwn yn effeithio ar y ddarpariaeth honno.

**Opsiynau a Ystyriwyd**
Fe gynhaliwyd arfarniad manwl o'r opsiynau er mwyn archwilio ffyrdd o leihau'r capasiti lleoedd cynradd yng Nghymuned Ddysgu Abertyleri. Rhoddwyd ystyriaeth i ffactorau megis lleoliad, safle a'r math o ddarpariaeth.

Cafodd y rhestr hir o opsiynau a nodir yn Ffigur 7 isod ei hail-werthuso'n ddiweddarach ac fe luniwyd rhestr fer, er mwyn gallu archwilio'r manteision, risgiau, llinellau amser, costau ac ati mewn llawer mwy o fanylder.

Y ffactorau allweddol yw lleihau capasiti adeiladau a lleoedd gwag ar gyfer disgyblion yn y cyfnod sylfaen. Gellir cyflawni hyn dros y flwyddyn academaidd, gan ei gwneud yn bosibl lleihau'r lleoedd gwag yn raddol o fis Medi 2026 ymlaen.

**Ffigur 7 – Rhestr Hir o Opsiynau**

| Opsiynau | Disgrifiad | Casgliadau |
|---|---|---|
| 1 | Busnes fel Arfer – cadw'r sefyllfa fel ag y mae – parhau â 3 champws cynradd dan Gymuned Ddysgu Abertyleri. | Ni fydd yr opsiwn hwn yn diwallu'r angen i fynd i'r afael â lleoedd gwag yn y Gymuned Ddysgu a fydd yn cael effaith negyddol ar fforddiadwyedd a chyllid yr ysgol trwy redeg 4 campws.<br>**Diystyriwyd** |
| 2 | Opsiwn 2 – gweithredu canolradd – cau Campws Heol Roseheyworth a dosbarthu'r lleoedd cynradd i mewn i Gampysau Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch gyda'r trefniant ar waith yn llawn erbyn mis Medi 2027 | Mae hwn yn opsiwn i'w ystyried; fodd bynnag, bydd angen cynnal gwerthusiad o niferoedd y disgyblion ac addasrwydd adeiladau.<br>**Ystyriwyd** |
| 3 | Opsiwn 3 – gweithredu canolradd – cau Campws Stryd Tyleri a dosbarthu'r lleoedd cynradd i mewn i Gampysau Heol Roseheyworth a'r Chwe Chloch gyda'r trefniant ar waith yn llawn erbyn mis Medi 2027 | Mae hwn yn opsiwn i'w ystyried; fodd bynnag, bydd angen cynnal gwerthusiad o niferoedd y disgyblion ac addasrwydd adeiladau.<br>**Ystyriwyd** |
| 4 | Opsiwn 4 – gweithredu canolradd – cau Campws y Chwe Chloch a dosbarthu'r lleoedd cynradd i mewn i Gampysau Stryd Tyleri a Heol Roseheyworth gyda'r trefniant ar waith yn llawn erbyn mis Medi 2027 | Mae hwn yn opsiwn i'w ystyried; fodd bynnag, bydd angen cynnal gwerthusiad o niferoedd y disgyblion ac addasrwydd adeiladau.<br>**Ystyriwyd** |
| 5 | Opsiwn 5 – gwneud y mwyaf posibl – Cau Campws Heol Roseheyworth, Campws Stryd Tyleri a Champws y Chwe Chloch gan symud yr holl ddisgyblion i mewn i un safle a gaiff ei adeiladu o'r newydd. | Bydd yr opsiwn hwn yn diwallu anghenion yr Ysgol; fodd bynnag, nid oes tir nac arian ar gael i adeiladu ysgol newydd sbon. Byddai cau campysau sydd newydd agor yn Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch yn arwain at adfachu cyllid gan Lywodraeth Cymru, a byddai hyn yn golygu bod y ddarpariaeth sydd ar gael i rieni'n llai lleol.<br>**Diystyriwyd** |

**Mae Opsiynau 1 a 5 wedi cael eu diystyru gan ei bod yn bosibl:**

- Na fyddent yn ymdrin â'r angen ar unwaith ac yn y tymor canolig i leihau'r capasiti.
- Na fyddai Opsiwn 5 yn hyfyw yn ariannol, na fyddai'n darparu datrysiad lleol i ddysgwyr, y byddai angen cyllid helaeth i adeiladu ysgol newydd, ac yn ogystal â hyn nid oes tir ar gael yn y dalgylch sy'n addas ar gyfer adeilad newydd.

**Rhestr Fer o Opsiynau**

Mae Opsiynau 2, 3 a 4 wedi cael eu hystyried fel rhan o restr fer. **Opsiwn 2** yw'r argymhelliad a ffefrir o ganlyniad i'r canlynol.

- Campws Heol Roseheyworth sydd â'r nifer lleiaf o ddisgyblion i'w dadleoli ac mae lle iddynt o fewn ôl troed y Gymuned Ddysgu ar y campysau a fyddai'n weddill. Bydd angen trefniadau pontio ar gyfer llai o ddisgyblion.
- Fe adeiladwyd Campws Heol Roseheyworth yn 2000 fel Ysgol y Mileniwm a hwn sydd â'r costau cynnal a chadw uchaf sydd wedi ôl-gronni o blith y 3 opsiwn a ystyriwyd gan olygu mai hwn yw'r campws sydd â'r risg fwyaf i'w gynnal a'i gadw.
- Roedd Campws Stryd Tyleri a Champws y Chwe Chloch ill dau'n adeiladau newydd fel rhan o gyllid Band A ac maent wedi'u hadeiladu gyda chysyniadau dylunio modern sy'n rhoi sgôr uwch o ran addasrwydd. Campws Heol Roseheyworth yw'r adeilad hynaf o blith yr opsiynau a ddarparwyd.
- Cafwyd cyllid i adeiladu Campws Stryd Tyleri a Champws y Chwe Chloch gan Lywodraeth Cymru, cyllid Band A Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif gynt, ac fe allai cau'r naill neu'r llall neu'r ddau o'r rhain arwain at adfachu cyllid o ganlyniad i gau'r adeilad cyn pryd o fewn 10 mlynedd i'w adeiladu.

**Risgiau a Lliniaru**

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent hanes profedig o lwyddiant wrth reoli prosiectau adeiladu ysgolion a threfniadaeth ysgolion trwy ad-drefnu ysgolion a'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – gan gynnwys y gofyniad i ymdrin â chapasiti mewn ysgolion. Gall y risgiau canlynol gael eu rheoli a'u lliniaru i raddau helaeth fel a ganlyn:

**Ffigur 8 – Risgiau a Lliniaru**

| Risg | Lliniaru |
|---|---|
| **Os na fyddir yn bwrw ymlaen â'r cynnig neu os bydd yn rhedeg yn hwyr, ceir risg ariannol o ran cyllideb yr ysgol a risg i gynaliadwyedd o ran rhedeg 4 campws yn erbyn cefnlen o niferoedd is o ddisgyblion.** | Mae'r Cyngor yn cydweithio'n agos gyda chydweithwyr allweddol i ddarparu amcanestyniad cywir o gyllid yr ysgol ar gyfer y blynyddoedd ariannol sydd i ddod. Mae costau rhedeg safleoedd yn cael eu hystyried ac mae'r gydberthynas â niferoedd y disgyblion, costau'r safleoedd a'r cyllid a ddyrennir yn cael ei hadolygu i ganfod cynaliadwyedd 4 campws yn y dyfodol. |

| | |
|---|---|
| **Os byddir yn bwrw ymlaen â'r cynnig ceir risg y bydd mwy o straen ar y gyllideb cludiant rhwng y cartref a'r ysgol gan y gallai fod angen cludiant ychwanegol ar gyfer y disgyblion hynny a fyddai'n gorfod teithio'n bellach i'r ysgol.** | Mae'r Cyngor yn cydweithio'n agos gyda chydweithwyr allweddol i ddarparu datrysiad lleol sy'n gost-effeithiol ac yn briodol i'w ddisgyblion. Mae safle presennol Heol Roseheyworth dan 1.5 milltir o Gampws Stryd Tyleri gan olygu y byddai'r mwyafrif o ddisgyblion y safle'n dal i fyw o fewn pellter teithio fel a amodir yn y Polisi Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol. |
| **Nid yw'r broses ymgynghori'n ymdrin â safbwynt rhanddeiliaid. Felly, ni fydd y cynnig yn cael ei gefnogi ac ni fyddir yn bwrw ymlaen ag ef.** | Mae gan Gyfarwyddiaeth Addysg Cyngor Blaenau Gwent brofiad o ymgynghori ynghylch cynigion ac maent wedi gwneud hynny'n ddiweddar, gan gydymffurfio'n llawn â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Fersiwn 2, 2018). Bydd cyfathrebu tryloyw, ymgysylltu â rhanddeiliaid, a darparu datrysiadau yn flaenllaw yn ein trafodaethau. |
| **Colli swyddi staff a gyflogir gan y Gymuned Ddysgu.** | Bwriedir ymgynghori'n llawn ag Adran Datblygu Sefydliadol y Cyngor. Bydd cyfleoedd adleoli ar gael ar draws campysau'r Gymuned Ddysgu. Bydd cynllun colli swyddi'n wirfoddol yn cael ei roi ar waith cyn yr angen i ymdrin ag opsiynau gorfodol. Bydd y defnydd o gyfraddau gadael naturiol yn cael ei reoli hefyd i leihau'r angen am golli swyddi'n orfodol. |
| **Tarfu ar addysg disgyblion wrth bontio i safle newydd.** | Bydd cynllun pontio manwl, proses o roi'r cynnig ar waith yn raddol, a chymorth i staff a disgyblion yn cael eu darparu a'u cytuno gan dîm arwain yr ysgol. Bydd cyfathrebu agored a thryloyw gyda staff, a bydd proses bontio raddol yn cael ei mabwysiadu gan roi amser i staff addasu. |
| **Dim digon o gapasiti ar gyfer y galw yn y dyfodol.** | Diben y cynnig hwn yw lleihau capasiti i gyd-fynd â'r galw yn y dyfodol a galluogi'r Cyngor i fonitro ac archwilio opsiynau hirdymor i sicrhau dyfodol cynaliadwy'r Gymuned. Er bod y capasiti'n cael ei leihau, bydd digon o ddarpariaeth i ateb galwadau'r Gymuned Ddysgu yn y dyfodol yn unol â niferoedd y disgyblion a ragamcanir a chanllawiau Llywodraeth Cymru. |
| **Nid yw'r capasiti'n cael ei leihau.** | Os na fydd unrhyw beth yn newid, bydd y cyfuniad o ostyngiad yn niferoedd y disgyblion a sefyllfa ariannol anodd Cymuned Ddysgu Abertyleri ar hyn o bryd yn golygu bod mwy o risg i'w hyfywedd hirdymor ac fe allai hynny ei gwneud hi'n anodd cynnal safnau addysg cyson ar draws yr holl gampysau. |

**Buddion y Cynnig**

Pe bai'r cynnig yn cael ei dderbyn y nod yw sicrhau cynaliadwyedd ariannol, gwella ansawdd yr addysg a sicrhau hyfywedd hirdymor Cymuned Ddysgu Abertyleri.

Mae'r buddion yn cynnwys:

**1. Cynaliadwyedd Ariannol**

- Gostyngiad mewn costau gweithredol (cyfleustodau, cynnal a chadw, diogelwch).
- Sefyllfa well o ran y gyllideb trwy ddileu gorbenion sy'n gysylltiedig â'r campws a fyddai'n cau.
- Y gallu i ailgyfeirio arian i wella adnoddau a chyfleusterau addysgu yn y campysau a fyddai'n weddill.

**2. Ansawdd Addysgol Gwell**

- Mae trefniadau staffio cyfunol yn ei gwneud yn bosibl lleoli athrawon a staff cymorth yn well.
- Mwy o gyfle i sefydlu gweledigaeth un ysgol a lleihau amrywioldeb o ran rheoli'r broses o gynllunio'r cwricwlwm gydag arweinyddiaeth a staffio wedi'u cydgrynhoi ar draws dau gampws cynradd yn hytrach nag ar draws tri.
- Cydweithio gwell ymhlith staff, gan arwain at safonau addysgu cyson.
- Gwella cynnydd disgyblion trwy ehangu cwmpas ymyriadau a chymorth yn y dosbarth gyda thîm cyfunol a mwy o Gynorthwywyr Addysgu

**3. Defnyddio Cyfleusterau'n Well**

- Mynediad at gyfleusterau a mannau mwy modern i staff a disgyblion o gampws Roseheyworth a fyddai'n symud i gampysau eraill.
- Gall buddsoddiad ganolbwyntio ar uwchraddio llai o gampysau i safonau uwch.
- Amgylcheddau dysgu gwell i ddisgyblion trwy adnoddau wedi'u cydgrynhoi.

**4. Profiad Cryfach i'r Gymuned a Disgyblion**

- Mae grwpiau disgyblion mwy yn gwella rhyngweithio cymdeithasol a dysgu gyda chymheiriaid.
- Trefniadau rhwyddach ar gyfer darparu gwasanaethau arbenigol (e.e. cymorth ADY, cwnsela).
- Mynediad rhwyddach at y campws uwchradd ar gyfer gweithgareddau pontio a chyfleoedd mwy datblygedig ar gyfer amserlennu ar y cyd, gan gynnwys staff uwchradd yn addysgu yng nghampws Stryd Tyleri.

**5. Cynllunio Strategol ar gyfer y Dyfodol**

- Mae'n sicrhau bod strwythur yr ysgol yn cyd-fynd â niferoedd disgyblion cyfredol a rhagamcanol.
- Mae'n gwneud y Gymuned Ddysgu'n hyfyw ac yn rhoi'r gallu iddi addasu dros y tymor hir.

Os na fydd unrhyw beth yn newid, bydd y cyfuniad o ostyngiad yn niferoedd y disgyblion a sefyllfa ariannol anodd Cymuned Ddysgu Abertyleri ar hyn o bryd yn golygu bod mwy o risg i'w hyfywedd hirdymor ac fe allai hynny ei gwneud hi'n anodd cynnal safonau addysg cyson ar draws yr holl gampysau.

**Anfanteision:**

**1. Effaith Gymunedol**

- Colli Hunaniaeth Leol: Gall y campws fod ag arwyddocâd hanesyddol neu emosiynol i'r gymuned leol. Gellir meddwl bod cau'n golygu lleihad yn y ddarpariaeth addysgol, gan effeithio o bosibl ar ymddiriedaeth y gymuned.

**2. Pryderon Disgyblion a Rhieni**

- Tarfu ar Ddisgyblion: Gall symud disgyblion i gampws newydd achosi materion gyda gorbryder ac addasu.
- Heriau Cludiant: Mwy o alw am gludiant i'r ysgol a chostau posibl i deuluoedd neu'r Awdurdod. Dadansoddiad o effaith y cynnig hwn. Mae amrywiadau blynyddol yn y niferoedd sy'n defnyddio cludiant rhwng y cartref a'r ysgol yn normal a bydd unrhyw amrywiadau yn y gost yn cael eu rheoli o fewn y gyllideb bresennol ar gyfer Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol.

**3. Goblygiadau o ran Staff**

- Pryderon ynghylch Diogelwch Swyddi: Gall rhai aelodau o staff wynebu cael eu hadleoli neu golli eu swyddi, a all effeithio ar forâl.
- Effaith ar Dderbyniadau: Gall rhai teuluoedd ddewis ysgolion eraill oherwydd ansefydlogrwydd canfyddedig.

**Data Cyrhaeddiad a Phresenoldeb**

**Prydau Ysgol Am Ddim (PYADd) – Cyfartaledd 3 blynedd (Cynradd ac Uwchradd)**

| **Cymuned Ddysgu Abertyleri** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** | **2023** | **2024** | **2025** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynradd** | 24.9% | 24.9% | 27.5% | 31.1% | 31.3% | 28.7% | 25.7% |
| Awdurdod Lleol (ALl) | 22.3% | 23.6% | 27.2% | 31.2% | 30.8% | 27.8% | 24.5% |
| Cymru | 18.5% | 19.3% | 21.3% | 23.0% | 23.7% | 22.9% | 21.7% |
| | | | | | | | |
| **Uwchradd** | 24.9% | 24.9% | 27.5% | 31.1% | 31.3% | 28.7% | 25.7% |
| Awdurdod Lleol (ALl) | 22.5% | 22.8% | 25.1% | 28.2% | 28.0% | 26.0% | 23.8% |
| Cymru | 16.5% | 17.0% | 18.7% | 20.4% | 21.2% | 20.9% | 20.1% |

Mae gan Gymuned Ddysgu Abertyleri gyfartaledd canrannol uwch o'i gymharu â chyfartaledd 3 blynedd yr ALl a Chenedlaethol Cymru.

**Saesneg fel iaith ychwanegol (EAL) (Cynradd ac Uwchradd)**

| **Cymuned Ddysgu Abertyleri** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** | **2023** | **2024** | **2025** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynradd** | 1.7% | 2.0% | 2.2% | 2.4% | 3.1% | 4.2% | 3.1% |
| Awdurdod Lleol (ALl) | 1.9% | 2.2% | 1.7% | 1.8% | 2.9% | 3.4% | 4.3% |
| Cymru | 6.0% | 6.1% | 6.0% | 6.2% | 6.7% | 7.1% | 7.4% |
| | | | | | | | |
| **Uwchradd** | 1.7% | 2.0% | 2.2% | 2.4% | 3.1% | 4.2% | 3.1% |
| Awdurdod Lleol (ALl) | 1.6% | 1.8% | 1.8% | 1.9% | 1.7% | 2.0% | 1.9% |
| Cymru | 2.9% | 2.8% | 2.9% | 3.0% | 3.4% | 3.4% | 3.7% |

Mae gan Gymuned Ddysgu Abertyleri gyfartaledd canrannol is yn ei chyfnod cynradd o'i gymharu â chyfartaledd 3 blynedd yr ALl a Chenedlaethol Cymru. Yn y cyfnod uwchradd ar y llaw arall mae gan yr ysgol gyfartaledd canrannol uwch o'i gymharu â'r ALl ac mae'n nes at gyfartaledd Cymru.

**Disgyblion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (Cynradd ac Uwchradd)**

| **Cymuned Ddysgu Abertyleri** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** | **2023** | **2024** | **2025** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynradd** | 5.1% | 5.4% | 5.3% | 5.9% | 6.8% | 10.6% | 11.1% |
| Awdurdod Lleol | 5.3% | 5.7% | 5.5% | 6.1% | 7.0% | 8.6% | 9.6% |
| Cymru | 12.5% | 12.8% | 12.9% | 13.3% | 14.4% | 15.3% | 16.0% |
| | | | | | | | |
| **Uwchradd** | 5.1% | 5.4% | 5.3% | 5.9% | 6.8% | 10.6% | 11.1% |
| Awdurdod Lleol | 4.9% | 4.8% | 5.0% | 5.5% | 6.3% | 8.0% | 8.4% |
| Cymru | 10.3% | 10.8% | 11.4% | 11.9% | 12.9% | 13.7% | 14.4% |

Mae gan gyfnod cynradd Cymuned Ddysgu Abertyleri gyfartaledd canrannol uwch na'r ALl ond mae'n dal i fod islaw cyfartaledd 3 blynedd Cenedlaethol Cymru. Yn y lleoliad uwchradd mae'r canrannau'n uwch na chyfartaledd yr ALl ac yn nes at gyfartaledd Cymru.

**Niferoedd yn y Dosbarthiadau Derbyn yng Nghymuned Ddysgu Abertyleri**
**Presenoldeb yn ystod y flwyddyn**

- Roedd presenoldeb yn 2024 yn y lleoliadau Cynradd yn 91.3% a oedd ychydig islaw cyfartaledd yr ALl, sef 91.4%, ac yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 90.8%
- Roedd presenoldeb yn 2024 yn y lleoliadau Uwchradd yn 89.6% a oedd uwchlaw cyfartaledd yr ALl, sef 88.5%, ac yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 89.4%

**Data Cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 4 yn 2025**
Yn y campws Uwchradd yng Nghymuned Ddysgu Abertyleri:

- Mae'r **sgôr pwyntiau capio 9** yn 345.62 sy'n uwch na chyfartaledd yr Awdurdod Lleol, sef 342.9, ond yn dal islaw cyfartaledd Cymru, sef 354.3.
- Mae'r **sgôr pwyntiau llythrennedd** yn 33.01 sydd islaw cyfartaledd yr Awdurdod Lleol, sef 35.7, ac islaw cyfartaledd Cenedlaethol Cymru, sef 38.6.
- Mae'r **sgôr pwyntiau rhifedd** yn 34.49, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd yr Awdurdod Lleol, sef 33.6, ac islaw cyfartaledd Cenedlaethol Cymru, sef 36.0
- Mae'r **sgôr pwyntiau gwyddoniaeth** yn 31.19, sydd islaw cyfartaledd yr Awdurdod Lleol, sef 33.7, ac islaw cyfartaledd Cenedlaethol Cymru, sef 35.8.

**Model Llywodraethu**
Ni fydd unrhyw newidiadau i'r model a strwythur llywodraethu presennol yng Nghymuned Ddysgu Abertyleri.

**Trefniadau Teithio gan Ddysgwyr**
Bydd Cyngor Blaenau Gwent yn darparu cludiant am ddim i blant sy'n mynychu eu hysgol addas agosaf, lle mae'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol yn fwy na'r pellter cerdded penodedig a nodir isod:

- mwy nag 1.5 milltir o'r cartref i blant sydd dan 8 oed (ar ddechrau'r flwyddyn academaidd) ond o oedran ysgol statudol. Bydd unrhyw gludiant a ddyfernir yn aros yn ei le am y flwyddyn academaidd gyfan
- mwy na 2 filltir o'r cartref i blant sy'n 8 oed a throsodd (ar ddechrau'r flwyddyn academaidd).

## Adran 4: Canlyniad yr Ymgynghoriad a'r Camau Nesaf

**Adroddiad Ymgynghori:** Bydd adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei goladu, ei ddadansoddi a'i gyflwyno mewn Adroddiad ar Alldro'r Ymgynghoriad i gyfarfod arbennig gan Gabinet y Cyngor yn yr wythnos sy'n dechrau ar **30 Ebrill 2026**. Bydd yr adroddiad ar gael ar wefan y Cyngor 2 wythnos cyn i benderfyniad gael ei wneud i fwrw ymlaen neu beidio bwrw ymlaen â hysbysiad statudol. Gellir cael copïau caled ar gais trwy'r cyfeiriadau e-bost a nodir uchod. Gall ymgyngoreion gofrestru eu dymuniad i gael eu hysbysu ynghylch cyhoeddi'r adroddiad ymgynghori trwy'r cyfeiriad e-bost uchod hefyd.

**Hysbysiad Statudol:** Os caiff y cynnig hwn ei gymeradwyo yn y Cabinet; bydd y Cyngor wedyn yn cyhoeddi hysbysiad statudol. Bydd cyfnod yr hysbysiad statudol yn rhedeg am 28 diwrnod, sef o **ddydd Mawrth 5 Mai 2026 – dydd Mercher 3 Mehefin 2026**. Yn ystod yr amser hwn, byddwch yn gallu gwneud gwrthwynebiadau ffurfiol os byddwch yn dymuno gwneud hynny, trwy'r cyfeiriad e-bost a ddarperir yn y llyfryn ymgynghori hwn.

Wedyn bydd unrhyw faterion a godir gan bartïon â buddiant yn cael eu crynhoi mewn Adroddiad Gwrthwynebiadau ac yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet er mwyn i benderfyniad terfynol gael ei wneud ym mis **Mehefin 2026**. Os bydd y cynnig symud ymlaen, bydd copi o'r Hysbysiad Statudol yn cael ei arddangos ar wefan y Cyngor a holl gampysau Cymuned Ddysgu Abertyleri. Bydd copïau caled o'r hysbysiad statudol ar gael ar gais.

**Penderfynu Ynghylch y Cynnig:** Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn penderfynu ynghylch y cynnig gan ystyried yr ymatebion a gafwyd i'r hysbysiad statudol. Gall hyn arwain at gymeradwyo'r cynnig, ei wrthod, neu ei gymeradwyo gydag addasiadau.

**Hysbysu Ynghylch y Penderfyniad:** Unwaith y bydd penderfyniad wedi cael ei wneud, bydd copi electronig o'r penderfyniad yn cael ei anfon at yr holl bartïon â buddiant ac yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent o fewn 7 niwrnod i'r penderfyniad.

**Ffigur 5 – Llinell Amser y Broses Statudol**

| Chwefror 2026 | Mawrth 2026 | Ebrill 2026 | Mai 2026 | Mehefin 2026 | Medi 2027 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfnod Ymgynghori | | | | | |
| | | Adroddiad ymgynghori i'r Cabinet | | | |
| | | | Hysbysiad Statudol | | |
| | | | | Adroddiad Gwrthwyneb-iadau | |
| | | | | Hysbysu Ynghylch y Penderfyniad | |
| | | | | | Rhoi Ar Waith Medi 2027 |

## Adran 5: Manylion yr Ysgolion yr Effeithir Arnynt



**Ysgolion yr Effeithir Arnynt**

**Y Rhai yr Effeithir Arnynt yn Uniongyrchol:**
Bydd y cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar holl gampysau Cymuned Ddysgu Abertyleri.

- Campws Cynradd Heol Roseheyworth, Heol Roseheyworth, Abertyleri, NP13 1SR
- Campws Cynradd Heol y Chwe Chloch, Heol y Chwe Chloch, Y Chwe Chloch, Abertyleri, NP13 2NJ a hefyd
- Campws Cynradd Stryd Tyleri, Stryd Tyleri, Abertyleri, NP13 1EH
- Campws Uwchradd Stryd Alma, Stryd Alma, Abertyleri, NP13 1QD (Pontio i Gyfnod Allweddol 3)

## Adran 6: Ystyriaethau Eraill

**Cyllid**

Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo cynnydd i'r Gyllideb Ysgolion Unigol (CYU) o £2.44m ar gyfer 2025/2026 ac ar gyfer 2026/2027 i roi cymorth ariannol pellach i ysgolion, gan eu galluogi i reoli pwysau o ran costau ac ail-fantoli eu cyllidebau.

Rhagwelir y bydd diffygion ysgolion yn cynyddu oddeutu £3m i £4.3m erbyn mis Mawrth 2026 er gwaethaf y cyllid ychwanegol a gymeradwywyd gan y Cyngor. Mae ysgolion yn ei chael yn her gynyddol mantoli eu cyllidebau oherwydd:

- Gostyngiad yn niferoedd y disgyblion, sy'n arwain at leoedd gwag mewn rhai lleoliadau a gostyngiad yn y cyllid ar sail disgyblion
- Galw cynyddol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol
- Costau gweithredol cynyddol

Fel rhan o'r ystyriaethau cyllidebol i gynorthwyo ysgolion i gyflawni sefydlogrwydd ariannol a lliniaru'r balansau sydd mewn diffyg, mae angen adolygu'r ystâd ysgolion i ganfod cyfleoedd i wneud y canlynol:

- Lleihau'r ystâd ysgolion lle mae gormod o gapasiti'n bodoli
- Ffedereiddio ysgolion i rannu arweinwyr, adnoddau a swyddogaethau gweinyddol
- Lleihau nifer yr adeiladau i ostwng costau cynnal a chadw a gweithredol
- Tyfu a chynnal y ddarpariaeth

Mae'r cynnig hwn yn rhan o'r broses hon

**Costau Refeniw**

Mae Cymuned Ddysgu Abertyleri'n cael ei chyllido yn unol â pholisi Cyllid Teg Cyngor Blaenau Gwent. Fel pob ysgol arall yn yr ardal, mae ei chyllid yn cael ei bennu gan niferoedd y disgyblion a maint safleoedd yr ysgol.

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26, £11.1 miliwn yw cyllideb flynyddol Cymuned Ddysgu Abertyleri, ac mae ganddi ddiffyg rhagamcanol o £898,000. Os na chymerir unrhyw gamau gweithredu, disgwylir i'r diffyg hwn gynyddu'n sylweddol dros y pum mlynedd nesaf fel isod, gan roi'r ysgol mewn sefyllfa ariannol anghynaliadwy.

| Diffyg Gwirioneddol 2024/25 £ | Diffyg a Ragwelir 2025/26 £ | Diffyg a Ragwelir 2026/27 £ | Diffyg a Ragwelir 2027/28 £ | Diffyg a Ragwelir 2028/29 £ | Diffyg a Ragwelir 2029/30 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **-310,011** | **-898,436** | **-1,704,448** | **-2,660,673** | **-3,657,053** | **-4,694,390** |

Bydd y cynnig hwn yn cefnogi'r ysgol i symud yn agosach at gyflawni cyllideb gytbwys yn ystod y flwyddyn drwy gyflawni gostyngiadau blynyddol mewn costau o oddeutu £670,000 o'r gostyngiad mewn lefelau staffio, dros bum mlynedd, disgwylir i'r arbedion hyn gyfanswm o tua £2.2 miliwn, gan leihau'r diffyg disgwyliedig yn sylweddol fel yr amlinellir isod:

| Diffyg Gwirioneddol 2024/25 £ | Diffyg a Ragwelir 2025/26 £ | Diffyg a Ragwelir 2026/27 £ | Diffyg a Ragwelir 2027/28 £ | Diffyg a Ragwelir 2028/29 £ | Diffyg a Ragwelir 2029/230 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **-310,011** | -898,436 | -1,526,448 | -1,822,673 | -2,139,253 | -2,476,396 |

Yn ogystal, bydd arbedion o tua £200,000 y flwyddyn o ran costau safleoedd. Yn sgîl y sefyllfa barhaus ac a ragwelir o ran diffyg yn y gyllideb, bydd angen ystyried mesurau ychwanegol yn y dyfodol. Mae Cymuned Ddysgu Abertyleri'n disgwyl gostyngiad pellach yn niferoedd y disgyblion, a fydd yn lleihau cyllideb yr ysgol oddeutu £500,000 y flwyddyn. Mae'r gostyngiad hwn wedi cael ei adlewyrchu yn y ffigyrau uchod, ac mae gostyngiad cysylltiedig yn y lefelau staffio eisoes wedi cael ei gynnwys. Fodd bynnag, bydd gofyn adolygu hyn ymhellach i sicrhau yr ymdrinnir yn llawn â'r sefyllfa.

Bydd y camau gweithredu hyn yn cynorthwyo'r ysgol i symud tuag at fwy o gynaliadwyedd ariannol a byddant yn helpu i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n fwy effeithiol i gefnogi dysgwyr. Trwy gryfhau ei sefyllfa ariannol, bydd gan yr ysgol well gallu hefyd i ganolbwyntio ar wella deilliannau addysgol yn hytrach na rheoli pwysau cyllidebol sy'n dwysáu.

Hefyd, mae'r newidiadau hyn yn debygol o effeithio ar wasanaethau eraill yr Awdurdod sy'n rhoi cymorth trwy Gytundebau Lefel Gwasanaeth i ysgolion, gan gynnwys Arlwyo a Glanhau. Efallai y bydd angen i'r gwasanaethau hyn hefyd gynllunio ar gyfer lleihad posibl; fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei reoli'n bennaf trwy drosiant naturiol staff.

**Costau Cyfalaf**

Mae costau cyfalaf bach iawn yn gysylltiedig â'r cynnig hwn. Bydd angen gwneud mân waith ar draws y ddau gampws a fydd yn weddill i'w gwneud yn bosibl derbyn dysgwyr ychwanegol, ac amcangyfrifir y bydd hyn yn costio oddeutu £100,000, a fydd yn cael ei gyllido o gyllidebau cynnal a chadw presennol.

**Derbyniadau Cyfalaf**
Ni ragwelir y bydd derbyniad cyfalaf yn gysylltiedig â'r cynnig hwn, gan bod gofynion ailbwrpasu a galwadau parhaus ar draws Ystâd Ysgolion y Gwasanaeth Addysg. O ganlyniad, bydd Campws Roseheyworth yn cael ei ystyried ar gyfer ailbwrpasu yn unol â'r galwadau hyn. Bydd hyn yn amodol ar arfarniad llawn o'r opsiynau ac ymgynghoriad cyhoeddus pellach i sicrhau tryloywder a bod yr hyn a wneir yn cyd-fynd ag anghenion y gymuned.

**Costau Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol**
Mae Polisi Blaenau Gwent ar Gludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol yn fwy hael na Mesur Teithio gan Ddysgwyr Cymru fel a ddynodir ar dudalen 21 yn y ddogfen ymgynghori.

Mae'r dull hwn yn sicrhau bod disgyblion yr effeithir arnynt gan newidiadau i gampysau'n parhau i gael mynediad diogel a rhesymol at addysg heb ysgwyddo costau ychwanegol i deuluoedd, gan gynnal ymrwymiad Blaenau Gwent i fynediad teg ar gyfer yr holl ddysgwyr.

Fe gynhaliwyd dadansoddiad o effaith y cynnig hwn ar gludiant rhwng y cartref a'r ysgol, ac fe ragwelir y bydd nifer fach iawn o ddisgyblion yn gymwys i gael cludiant gan olygu y bydd angen darpariaeth â bws mini, sy'n debygol o arwain at gostau blynyddol uwch i'r Cyngor o £30,000.

**Trefniadau Derbyn**
Bydd gan yr holl ddisgyblion sydd ar y gofrestr yn y campysau a enwir yn y cynnig le a warentir yn y campysau cynradd o 1 Medi 2026. Mae parhad darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol i ddisgyblion a addysgir yn y ganolfan adnoddau mewn campysau wedi'i warantu hefyd ar yr amod na fydd unrhyw newid yn anghenion y plentyn unigol a fyddai'n golygu bod gofyn cynnal asesiad pellach o'u hanghenion.

Yn yr un modd, o 31 Awst 2026 bydd angen i rieni plant meithrin ymgeisio am le yn y dosbarth derbyn yn y Gymuned Ddysgu yn unol â phroses Blaenau Gwent ar gyfer derbyn i ysgolion, gan nodi'r ysgol newydd fel rhan o'r cais am leoedd mewn ysgolion, a fydd yn dechrau yn ystod blwyddyn academaidd 2026/27, a bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei chyhoeddi ar yr adeg hon.

Os ar unrhyw adeg bydd rhieni'n dymuno mynegi dewis i fynychu campws arall gallant wneud hynny trwy gysylltu â'r Gymuned Ddysgu a gofyn am drosglwyddiad mewnol.

**Effaith y Cynnig ar y Gymraeg**
Nid yw'r cynnig hwn yn effeithio ar nifer nac argaeledd lleoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ym Mlaenau Gwent. Nid yw'r Cyngor yn disgwyl unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg o ganlyniad i'r cynnig hwn. Yn hytrach mae'r ysgol Gymraeg agosaf, sydd lai na 5 milltir i ffwrdd, wedi profi cynnydd mewn derbyniadau, a allai fod yn cael ei adlewyrchu yn y gostyngiad yn y lleoedd cyfrwng Saesneg sy'n cael eu llenwi yng nghampysau cynradd Cymuned Ddysgu Abertyleri.

Addysgir Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn unol â'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Felly ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith ar Fesur y Gymraeg (2011).

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**
Mae Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei gynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ac mae i'w weld ar ein gwefan. https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/council/consultations/proposal-to-reduce-the-capacity-at abertillery-learning-community- primary-phase

**Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a'r Gymraeg**
Mae asesiad o'r effaith ar y gymuned wedi cael ei gynnal er mwyn asesu effaith cynigion a phenderfyniadau allweddol ar randdeiliaid a'r gymuned ehangach (Cyfeirier at **Atodiad 2** am ragor o wybodaeth).

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)**
Mae'r Cyngor yn sicrhau yn ei holl gyfrifoldebau corfforaethol y bydd wastad yn ymgysylltu'n gadarnhaol â phlant a phobl ifanc. Os rhoddir y cynnig hwn ar waith, bydd yn gwireddu buddion i blant a phobl ifanc yn unol â saith nod craidd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn benodol:

**Nod craidd 1** – cael dechrau da mewn bywyd.
**Nod craidd 2** – cael ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu.
**Nod craidd 3** – mwynhau'r iechyd gorau posibl a bod yn rhydd rhag cam-drin, fictimeiddio a chamfanteisio.
**Nod craidd 4** – cael mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol.
**Nod craidd 5** – bod pobl yn gwrando arnynt, eu bod yn cael eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod.
**Nod craidd 6** – bod â chartref a chymuned sy'n cefnogi llesiant corfforol ac emosiynol; a
**Nod craidd 7** – peidio â chael eu rhoi dan anfantais oherwydd tlodi.

**Ennyn Ymgysylltiad Plant a Phobl Ifanc â'r Ymgynghoriad hwn**
Fel rhan o'r broses ymgynghori hon, bydd Tîm Adnoddau a Chynllunio Addysg y Cyngor, mewn partneriaeth gyda'r ysgol, yn ymgynghori â disgyblion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt, yn ogystal ag ymgysylltu â Fforwm Ieuenctid ac Uwch-Gyngor Ysgolion Blaenau Gwent.

**Datblygiadau Tai**
Ar gyfartaledd dros y 5 mlynedd ddiwethaf, mae 79 o dai wedi cael eu hadeiladu ym Mlaenau Gwent bob blwyddyn. Mae disgwyl i'r lefel hon o dwf barhau. Naill ai mae gan y cartrefi posibl hyn ganiatâd cynllunio yn barod, neu fe geisir cytundeb cyfreithiol ar eu cyfer neu maent wedi'u cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol. Mae hyn yn debygol o gael effaith ar gynllunio lleoedd ar gyfer disgyblion. Mae'r Tîm Adnoddau a Chynllunio Addysg yn monitro'r effaith ar ysgolion.

**Ffigur 6** – Mae'r isod yn dangos nifer y Datblygiadau tai sydd yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar hyn o bryd ar gyfer y 3 blynedd nesaf.

| | Yn ôl yr Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai sy'n ystyried graddfa amser 5 mlynedd mae'r ffigyrau canlynol wedi'u hadnabod ar gyfer **Dyffryn Tredegar**. | | | | | Yn ôl yr Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai sy'n ystyried graddfa amser 5 mlynedd mae'r ffigyrau canlynol wedi'u hadnabod ar gyfer **Dyffryn Ebwy Fawr**. | | | | | Yn ôl yr Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai sy'n ystyried graddfa amser 5 mlynedd mae'r ffigyrau canlynol wedi'u hadnabod ar gyfer **Dyffryn Ebwy Fach**. | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 |
| Cymdeithasau Tai: | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 15 | 20 | 0 | 0 | 0 | 0 | 34 | 34 | 0 | 0 |
| Tai'r Sector Preifat: | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 98 | 40 | 10 | 12 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **113** | **60** | **10** | **12** | 0 | **0** | **34** | **34** | **0** | **0** |

I gael rhagor o wybodaeth ewch at y dudalen we ganlynol: https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/resident/planning/local-development-plan/ldp-allocations/ Mae'r data uchod yn dweud wrthym bod 56 o ddatblygiadau tai yn yr arfaeth rhwng 2026 a 2029. Mae potensial i hyn gynyddu'r galw mewn ysgolion prif ffrwd ac arbennig yn y dyfodol.

**Adnoddau Dynol**
Mae'r cynnig yn un i leihau nifer y campysau cynradd yn lleoliad Cynradd Cymuned Ddysgu Abertyleri, a bydd hyn yn golygu bod gofyn i Gorff Llywodraethu'r Ysgol a'r Uwch Dîm Rheoli ystyried yr effaith ar y cynllun ar gyfer y gweithlu. Mae yna swyddi sydd eisoes wedi dod yn wag a fydd yn helpu o ran rheoli'r broses hon

Bydd yr Adran Datblygu Sefydliadol yn rhoi cyngor, cymorth ac arweiniad i'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethu mewn perthynas â'r prosesau rheoli newid a fydd yn cynnwys ymgynghori â Staff ac Undebau Llafur.

**Partneriaethau**
Fe gynhaliodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gwent Asesiad Llesiant rhanbarthol yn ystod 2021-22 a wnaeth adolygu llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yng Ngwent. Defnyddiodd yr asesiad amrywiaeth eang o wybodaeth ansoddol a meintiol gan gynnwys data, ymchwil academaidd, tystiolaeth, a barn pobl (ymgysylltu) i helpu i ddeall Llesiant yng Ngwent.

Defnyddiodd yr asesiad ddull seiliedig-ar-asedau, yn hytrach na chanolbwyntio dim ond ar angen, i adeiladu ar gryfderau ac adnabod cryfderau unigolion a chymunedau ac fe wnaeth hefyd adnabod problemau a heriau y mae angen ymdrin â hwy. Mae'r dystiolaeth a'r materion allweddol a adnabuwyd yn yr asesiad wedi cael eu defnyddio i ddatblygu Cynllun Llesiant Gwent.

Cynllun Llesiant Gwent 2023-28, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023, oedd y cynllun llesiant rhanbarthol cyntaf i gael ei roi ar waith ar gyfer Gwent. Mae'n nodi Amcanion Llesiant BGC Gwent a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd y rhain yn cael eu cyflawni trwy BGC Gwent ar gyfer gweithgarwch ar raddfa ranbarthol yn ogystal â thrwy bum Grŵp Cyflawni Lleol ym mhob un o ardaloedd ALl Gwent.

**Amcanion:**
- Mae arnom eisiau creu Gwent sy'n decach, yn fwy cyfartal a chynhwysol i bawb
- Mae arnom eisiau bod Gwent yn lle sy'n barod ar gyfer effeithiau newid hinsawdd, lle mae ein hamgylchedd yn cael ei werthfawrogi a'i ddiogelu, gan fod o fudd i'n llesiant ni yn awr ac i lesiant cenedlaethau'r dyfodol

**Camau:**
- Gweithredu i leihau effaith yr argyfwng costau byw yn y tymor hir
- Darparu a'i gwneud yn bosibl cyflenwi cartrefi fforddiadwy a phriodol o ansawdd da
- Gweithredu i leihau ein hallyriadau carbon, helpu Gwent i addasu i newid hinsawdd, a diogelu ac adfer ein hamgylchedd naturiol
- Gweithredu i ymdrin ag anghydraddoldebau, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd, trwy fframwaith Egwyddorion Marmot
- Galluogi a chynorthwyo pobl, cymdogaethau a chymunedau i fod yn gydnerth, wedi'u cysylltu, yn ffyniannus ac yn ddiogel

Mae Grwpiau Cyflawni Lleol BGC Gwent yn bodoli ym mhob un o'r pum ardal awdurdod lleol i sicrhau y cyflawnir camau gweithredu a blaenoriaethau lleol sy'n cyfrannu at amcanion llesiant y BGC.

Mae Grŵp Cyflawni Lleol Blaenau Gwent, a adwaenir fel Partneriaeth Llesiant Lleol BG, wedi datblygu set o flaenoriaethau llesiant lleol, yn seiliedig ar ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid, i helpu i gyflawni'r Cynllun Llesiant ar lefel leol: -

- Lleihau Anghydraddoldebau ymhlith plant, pobl ifanc a phobl hŷn
- Teithio a Chludiant Integredig
- Mynediad at fwyd iach, lleol, fforddiadwy
- Newid Hinsawdd a Natur

Mae'r amcanion llesiant a'r blaenoriaethau lleol hyn yn rhai yr ydym o'r farn bod ganddynt rym gwirioneddol i greu newid, eu bod y mwyaf dybryd a bod y dystiolaeth yn dweud wrthym bod angen grym cyfunol partneriaid y BGC i'w cyflawni a gwella llesiant lleol.

## Adran 7: Y Trefniadau Presennol

**ESTYN**

Fe arolygir ysgolion fel rhan o raglen arolygu ysgolion genedlaethol. Diben arolygiad yw adnabod nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyrhaeddir gan eu disgyblion (Estyn). Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf o Gymuned Ddysgu Abertyleri gan Estyn yn 2025. I weld copi llawn o'r adroddiad arolygu, defnyddiwch y ddolen Adroddiad arolygu Cymuned Ddysgu Abertyleri 2025

**Ansawdd a Safonau mewn Addysg**

Sylwch nad yw'r adroddiad arolygu uchod yn cyfeirio at y Safonau Dysgu. Ceir crynodeb o'r canlyniadau isod:

**Dysgu ac Addysgu:**

Mae'r adroddiad yn amlygu bod y rhan fwyaf o athrawon yn meithrin amgylcheddau dosbarth cadarnhaol ac yn rheoli ymddygiad yn effeithiol, gan arwain at ymgysylltiad pwrpasol gan ddisgyblion. Er bod llawer o athrawon yn gosod disgwyliadau uchel ac yn cynllunio gwersi heriol, ceir anghysonderau mewn disgwyliadau, cwestiynu, adborth, a chyfleoedd ar gyfer dysgu annibynnol. Mae'r ddarpariaeth gwricwlaidd yn gytbwys ar y cyfan, ond ceir bylchau o hyd mewn llythrennedd, rhifedd, sgiliau digidol, ac o ran datblygu'r Gymraeg, yn enwedig yn yr ysgol uchaf. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd addas, ac mae gweithgareddau cyfoethogi'n gryf, er bod angen gwella datblygiad sgiliau strategol a darpariaeth ABCh ar gyfer disgyblion hŷn.

**Cymorth ac Arweiniad Gofal**

Mae Cymuned Ddysgu Abertyleri yn dangos ymrwymiad cryf i les disgyblion, gan weithio'n effeithiol gyda chwnselwyr, gweithwyr ieuenctid, gwasanaethau plant a'r heddlu i sicrhau cefnogaeth bersonol i bob dysgwr. Mae'r ysgol yn darparu canllawiau ar-lein hygyrch ac yn cymryd camau rhagweithiol i leihau effaith tlodi, gan gynnig cymorth wedi'i dargedu i ddisgyblion agored i niwed neu ddigartref trwy ei Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd pwrpasol. Mae presenoldeb yn gryfder nodedig, gyda monitro cadarn, partneriaethau cynhyrchiol ac ymgysylltiad agos â theuluoedd yn cyfrannu at gyfraddau gwell yn sylweddol ar draws pob grŵp, gan berfformio'n gyson yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae ymdrechion ffocws i leihau absenoldeb parhaus wedi bod yn arbennig o lwyddiannus.

Mae arweinyddiaeth disgyblion yn ffynnu drwy Senedd disgybl gynhwysol sy'n elwa o gysylltiadau cryf â Chyngor Cymuned Abertyleri, tra bod ystod eang o glybiau allgyrsiol yn gwella datblygiad cymdeithasol, personol a chreadigol disgyblion. Mae pontio rhwng ysgol gynradd ac

ysgol uwchradd wedi'u strwythuro'n dda, ac mae disgyblion hŷn yn derbyn cymorth gyrfaoedd cynhwysfawr sy'n helpu i godi dyheadau ac yn sicrhau bron pob cynnydd i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae gweithdrefnau diogelu wedi'u sefydlu'n dda ac wedi'u hatgyfnerthu trwy hyfforddiant staff rheolaidd, ac mae gwelliannau diweddar i bolisïau ymddygiad, bwlio a gwrth-hiliaeth wedi cryfhau agweddau disgyblion at ddysgu. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gyffredinol yn gryf, yn enwedig yn yr ysgol is, gydag amgylcheddau meithrin fel y Nest a Seiliau Adnoddau Anghenion Cymhleth yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol, cynhwysiant ac ymgysylltu cymunedol ehangach.

**Llesiant ac agweddau at ddysgu:**
Mae Cymuned Ddysgu Abertyleri'n blaenoriaethu lles disgyblion trwy berthnasoedd cryf, strategaethau presenoldeb rhagweithiol, a chymorth wedi'i dargedu i ddysgwyr agored i niwed. Mae'r ysgol wedi gwella presenoldeb yn sylweddol, wedi cryfhau llais y disgybl, ac wedi datblygu darpariaethau cynhwysol ar gyfer disgyblion ag anghenion cymhleth a heriau ymddygiadol.

Mae arweinwyr yn cydweithio gydag ystod eang o asiantaethau allanol ac yn darparu adran wedi'i neilltuo i les ar wefan yr ysgol sy'n rhoi arweiniad i ddisgyblion, teuluoedd, a staff. Ceir dull diwygiedig trwy'r Senedd disgyblion sy'n cryfhau llais y disgybl a sgiliau arwain disgyblion. Ceir Dilyniant Ôl-16 rhagweithiol sy'n adnabod disgyblion sy'n wynebu risg o beidio â chamu ymlaen i addysg, cyflogaeth na hyfforddiant gyda chymorth wedi'i dargedu'n cael ei roi i leihau risg i'r eithaf. Mae gan y Gymuned Ddysgu Ddwy ganolfan cwricwlwm amgen sy'n cefnogi disgyblion ag anghenion ymddygiadol a'r rhai sy'n wynebu risg o gael eu gwahardd a Dwy Ganolfan Adnoddau Anghenion Cymhleth sy'n cynnig amgylcheddau tawel, gofalgar sy'n canolbwyntio ar les cymdeithasol ac emosiynol.

**Arwain a gwella:**
Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref, gydnerth gyda disgwyliadau uchel a gweledigaeth eglur a ddeellir gan staff a disgyblion. Mae rolau arwain wedi'u diffinio'n dda, ac mae hynny'n cael ei ategu gan brosesau gwerthuso a chyfleoedd dysgu proffesiynol strwythuredig. Mae arweinwyr yn canolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol megis presenoldeb a lleddfu tlodi, yn cynnal perthnasoedd cadarnhaol â rhieni, ac yn defnyddio offer cyfathrebu effeithiol i ddathlu llwyddiant disgyblion.

**Argymhellion ar gyfer Gwella**

- A1 Gwella ansawdd yr addysgu fel bod disgyblion o bob gallu'n gwneud cynnydd addas, yn enwedig yn y cyfnod uwchradd
- A2 Darparu cyfleoedd heriol ystyrlon i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd
- A3 Sicrhau bod arweinwyr yn adnabod camau gweithredu eglur a phenodol wrth gynllunio ar gyfer gwella, yn enwedig mewn perthynas â gwella'r addysgu
- A4 Sicrhau bod yr ysgol yn ateb y gofyniad statudol i ddisgyblion astudio Cymraeg hyd at 16 oed

**Ceir rhai o'r sylwadau o'r arolygiad isod:**

- *Mae'r rhan fwyaf o athrawon yng Nghymuned Ddysgu Abertyleri'n datblygu perthnasoedd gweithio cadarnhaol â disgyblion ac yn creu ystafelloedd dosbarth tawel a chefnogol.*
- *Mewn mwyafrif o sesiynau, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n cefnogi ac yn herio disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae disgyblion yn aml yn dangos agweddau cadarnhaol, yn cyfranogi'n frwdfrydig, ac yn gwneud cynnydd priodol.*
- *Mae cwricwlwm yr ysgol yn adlewyrchu ei chymuned yn dda ac yn cynnwys themâu perthnasol megis hanes glofaol lleol. Ceir gweledigaeth glir ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, gyda ffocws ar ddatblygu sgiliau bywyd disgyblion.*

**Effaith y cynnig**
Os bydd y cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd yr amgylchedd dysgu cywasgedig yn ei gwneud yn bosibl bod â mwy o reolaeth, a rhoi darpariaeth o ansawdd da sy'n gwella'r profiad dysgu ar gyfer yr holl ddisgyblion. Bydd y cynnig yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu rheoli'n effeithlon i sicrhau bod safonau'n cael eu gwella a'u cynnal.

**Effaith debygol y cynigion ar bum maes Estyn yw:**

**Safonau dysgu –** Bydd canolbwyntio cymorth athrawon a chynorthwywyr addysgu ar draws dau gampws, yn hytrach na gwasgaru adnoddau ar draws tri, yn cael effaith gadarnhaol ar safonau dysgu. Mae mwy o ffocws wrth ddosbarthu staff yn ei gwneud yn bosibl cyfuno arbenigedd a sgiliau arbenigol, gan gryfhau arfer addysgegol trwy gydweithio, mentora, a dulliau addysgol cyffredin. Mae'r crynodiad hwn yn cefnogi addysgu o ansawdd gwell, cymorth mwy ymatebol i fyfyrwyr, a chysondeb gwell o ran y modd y darperir y cwricwlwm.

**Lles ac agweddau at ddysgu –** Bydd lleihau'r ddarpariaeth o dri champws i ddau'n creu mwy o gyfleoedd i integreiddio disgyblion, gan gefnogi datblygiad perthnasoedd cadarnhaol ac ymdeimlad cryfach o berthyn. Mae hyn yn arbennig o fuddiol i ddisgyblion cynradd hŷn, gan eu galluogi i feithrin cysylltiadau fel un garfan yn barod ar gyfer pontio, ac yn ystod y broses o bontio, i mewn i Flwyddyn 7. Hefyd, bydd cyfuno a chydgrynhoi arbenigedd staff yn cryfhau capasiti'r ysgol i gefnogi lles myfyrwyr, gan ei gwneud yn bosibl adnabod anghenion ac ymdrin â hwy yn fwy effeithiol a chyson.

**Addysgu a phrofiadau dysgu –** Bydd lleihau'r ddarpariaeth o dri champws i ddau'n ei gwneud yn bosibl defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon gan hefyd gryfhau cydweithio proffesiynol. Mae dod â staff ynghyd ar draws llai o gampysau'n creu mwy o gyfleoedd ar gyfer gweithio rhwng ymarferwyr, rhannu arfer, a chydweithio ar draws campysau. Bydd y modd y darperir dysgu proffesiynol yn fwy cydlynus ac yn haws i'w reoli'n weithredol ar draws dau gampws, gan alluogi mwy o gyfranogiad a dulliau addysgegol mwy cyson. Bydd y cydweithio cynyddol hwn ymhlith athrawon a chynorthwywyr addysgu'n cyfoethogi'r addysgu a phrofiadau dysgu i ddisgyblion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad –** Bydd lleihau'r ddarpariaeth o dri champws i ddau'n cryfhau capasiti'r ysgol i roi gofal, cymorth ac arweiniad amserol ac ymatebol i ddisgyblion. Mae canolbwyntio adnoddau ac arbenigedd staff ar draws llai o gampysau'n ei gwneud yn bosibl lleoli sgiliau arbenigol yn fwy effeithiol i ddiwallu anghenion disgyblion. Yn arbennig, bydd agosrwydd campws ST a'r nifer uwch o ddisgyblion a fydd wedi'u lleoli yno'n galluogi mwy o ymgysylltiad wrth weithio ar draws campysau â'r tîm lles ar y campws uwchradd, gan wella mynediad at gymorth a gwella parhad y gofal.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth –** Mae'r cynnig yn amcanu at gryfhau arweinyddiaeth trwy gydweithio agosach a chydlyniad gwell ar draws yr ysgol. Bydd lleihau'r ddarpariaeth o dri champws i ddau'n galluogi arweinwyr i gydweithio'n fwy, gan sicrhau bod prosesau cynllunio, penderfynu, a chyfeiriad strategol yn cyd-fynd yn fwy. Bydd hyn yn gwella cysondeb yr ymarfer ac eglurder y blaenoriaethau ar draws yr ysgol.

## Adran 8: Trosolwg o'r Cynnig

Mae'r tabl isod yn manylu ar gategori, iaith, ystod oedran a manylion perthnasol eraill yr ysgol newydd arfaethedig:

| Trosolwg o'r Cynnig i Leihau Capasiti | |
|---|---|
| **Nifer a threfniadau derbyn** | Mae derbyniadau i'r ysgol hon trwy Gymuned Ddysgu Abertyleri |
| **Ystod oedran** | 3-16 oed |
| **Lleoedd disgyblion** | Dyma oedd y sefyllfa ym mis Medi 2025:<br>• 980 o leoedd cynradd<br>• 750 o leoedd uwchradd |
| **Capasiti'r ysgol** | O fis Medi 2027 bydd:<br>• 770 o leoedd cynradd<br>• 750 o leoedd uwchradd |
| **Lleoliad** | Campws Uwchradd Cymuned Ddysgu Abertyleri, Stryd Alma, Abertyleri, NP13 1YL<br><br>Campws Cynradd Cymuned Ddysgu Abertyleri<br>• Campws Stryd Tyleri, Stryd Tyleri, Abertyleri, NP13 1EH<br>• Campws y Chwe Chloch, Heol y Chwe Chloch, Y Chwe Chloch, Abertyleri, NP13 2NJ |
| **Categori ac iaith yr ysgol** | Ysgol Gymunedol Cyfrwng Saesneg |
| **Rhestr o'r adeiladau** | I'w phennu ar ôl yr ymgynghoriad |
| **Trefniadau a pholisi cludiant** | Bydd cludiant yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Blaenau Gwent ar Gludiant i'r Ysgol a Chludiant Ôl-16 2026/27. Cyfeirier at Adran 1 am ragor o wybodaeth. |
| **Cost y Disgybl 2024/25** | £6,425 |
| **Canlyniadau Arolygiad Estyn** | Adroddiad Arolygu Cymuned Ddysgu Abertyleri 2025 |
| **Categorïau Cyflwr Adeiladau** | Campws Uwchradd B<br>Campws Stryd Tyleri A<br>Campws Heol y Chwe Chloch A |
| **Categorïau Cynaliadwyedd Adeiladau** | Campws Uwchradd B<br>Campws Stryd Tyleri A<br>Campws Heol y Chwe Chloch A |

**Dalgylch yr Ysgol**
Mae gan Gymuned Ddysgu Abertyleri (CDdA) ddalgylch wedi'i ddynodi'n ffurfiol a bennwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, sy'n cwmpasu tref Abertyleri a'i chymunedau cyfagos. Mae plant sy'n byw o fewn y ffin honno'n cael blaenoriaeth dan bolisi'r awdurdod lleol ar dderbyn i ysgolion.

**Trefniadau Pontio**

Os bydd y cynnig hwn yn llwyddo, bydd disgyblion yn pontio i'w campws cynradd newydd ar ddechrau mis Medi 2027. Bydd trefniadau a pharatoadau'n dechrau ym mlwyddyn academaidd 2026/27 a byddant yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion brofi eu dosbarthiadau newydd a theithiau i gefnogi proses bontio esmwyth a chadarnhaol. Bydd y Gymuned Ddysgu'n gweithio gyda staff i'w paratoi ar gyfer y trefniadau

**Cwestiynau Cyffredin**

| Cwestiwn | Ymateb |
|---|---|
| **Pryd fyddai plant o Heol Roseheyworth yn symud i Gampws gwahanol?** | Os bydd y cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd eich plant yn dechrau ar y campws newydd ym mis Medi 2027. |
| **Sut fydd fy mhlentyn yn cael ei gefnogi yn ystod y broses bontio?** | Bydd yr ysgol yn sefydlu cynllun pontio i gefnogi disgyblion sy'n symud i gampws newydd. Bydd hyn yn cynnwys ymweliadau â'r campws newydd, gweithgareddau pontio, a chyfarfodydd gyda rhieni/gofalwyr i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn ymgartrefu'n dda ac yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi. |
| **Beth am staff?** | Bydd peth effaith ar staff gyda swyddi'n cael eu colli o bosibl a/neu gyfleoedd i adleoli. |
| **Sut mae fy mhlentyn yn mynd i gyrraedd yr ysgol?** | Bydd y trefniadau presennol dan y polisi cludiant rhwng y cartref a'r ysgol a chludiant ôl-16 2026/26 yn parhau, pe bai eich plentyn yn gymwys ar gyfer trefniadau cludiant oherwydd y newid mewn campws |
| **Sut fydd fy mhlentyn yn cael mynediad at ginio ysgol?** | Yn yr un ffordd ag ar hyn o bryd yng Nghampws Roseheyworth. Mae gan bob campws neuadd ac ardal fwyta. |
| **Beth sy'n mynd i ddigwydd i'r adeilad ysgol gwag?** | Bydd y tîm Adnoddau a Chynllunio Addysg yn llunio opsiynau ar gyfer ad-drefnu ysgolion a defnyddio'r adeilad |
| **Pam mai cau Heol Roseheyworth ac nid un o'r safleoedd eraill yw'r opsiwn a ffefrir?** | Yr opsiwn a ffefrir yw cau'r campws gyda'r niferoedd isaf o ddisgyblion a'r lefel uchaf o leoedd gwag. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl derbyn yr holl ddisgyblion yn ddiogel ac yn briodol ar draws y campysau sy'n weddill. |

# Adran 9: Ffurflen yr Ymgynghoriad

Cymunedau Dysgu Cynaliadwy
Sustainable Communities for Learning

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

## Holiadur yr Ymgynghoriad

Darparwch eich sylw ar y cynnig ynghylch: I lleihau capasiti'r ysgol gynradd, sy'n rhan o Gymuned Ddysgu Abertyleri, o 980 i 770, i leihau capasiti corfforol Cymuned Ddysgu Abertyleri drwy gau Campws Heol Roseheyworth a symud disgyblion i'r campysau sy'n weddill (Campws Six Bells a Champws Stryd Tyleri) gyda gweithredu'n raddol yn dechrau o fis Medi 2026 a chyda gweithredu'n llawn erbyn mis Medi 2027.
https://online1.snapsurveys.com/n94ji6

Efallai y byddwch hefyd yn dymuno dynodi pa un o'r canlynol sy'n adlewyrchu eich barn:

| | |
|---|---|
| Rwy'n cefnogi'r cynnig yn llawn | |
| Rwy'n cefnogi'r cynnig yn rhannol | |
| Nid wyf yn cefnogi'r cynnig | |

| Eich sylwadau: |
|---|
| |

Enw: ______________________________________________ Dyddiad: _________
E-bost: ____________________________________________________________
Cyfeiriad: __________________________________________ Cod post: ________

**Dynodwch a ydych yn:**

**Cynradd:** Athro neu Athrawes/Staff Ysgol Nad Yw'n Addysgu / Llywodraethwr / Rhiant / Disgybl / Trigolyn Lleol / Arall (rhowch fanylion) ______________________________

**Uwchradd:** Athro neu Athrawes/Staff Ysgol Nad Yw'n Addysgu / Llywodraethwr / Rhiant / Disgybl / Trigolyn Lleol / Arall (rhowch fanylion) _____________________________

**Diolch am eich amser a'ch cyfraniad i'r ymgynghoriad. Bydd eich barn, eich sylwadau a'ch ymatebion yn cael eu cofnodi a'u cyflwyno mewn adroddiad i Bwyllgor Gweithredol y Cyngor yn yr Adroddiad ar Ganlyniad yr Ymgynghoriad.**

**Datodwch y ffurflen hon os gwelwch yn dda a'i dychwelyd trwy'r e-post i:** y Swyddfeydd Cyffredional, Heol Gwaith Dur, Glyn Ebwy NP23 6DN

**Dylai'r holl sylwadau ddod i law yn ddim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Mawrth 14 Ebrill 2026.**

# Atodiad 1 – Rhestr Ddosbarthu ar gyfer y Ddogfen Ymgynghori

| | |
|---|---|
| Rhieni (a, lle y bo'n bosib, darpar rieni), gofalwyr a gwarcheidwaid, ac aelodau o staff yr ysgolion y mae'r cynigion yn effeithio arnynt | Gweinidogion Cymru |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae disgyblion fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ysgol uwchradd honno | Aelodau Cynulliad (ACau) Etholaethol a Rhanbarthol ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan/y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu gan unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi |
| Yr awdurdod sy'n cynnal neu'r awdurdod y cynigir y bydd yn cynnal unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni | ESTYN |
| Unrhyw awdurdod lleol arall (gan gynnwys rhai yn Lloegr lle y bo'n briodol) y mae'n debygol yr effeithir arnynt – gan gynnwys yn achos darpariaeth ADY bwrpasol, unrhyw awdurdod sy'n lleoli neu'n debygol o leoli disgyblion ag ADY ynddi i'w ddosbarthu i ysgolion yn eu hardaloedd fel y bo'n briodol | Undebau llafur athrawon a staff (NUT; NASUWT; ATL; UCAC; UNSAIN; GMB) sy'n cynrychioli athrawon ac aelodau eraill o staff mewn unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi |
| Awdurdod esgobaethol yr Eglwys Yng Nghymru a Chatholig ar gyfer yr ardal y mae unrhyw ysgol y mae'n debygol yr effeithir arni wedi'i lleoli ynddi | Y Consortiwm Addysg Rhanbarthol perthnasol |
| Unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer yr ardal a wasanaethir gan/y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu gan unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi |
| Corff llywodraethu unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi | Unrhyw gyngor tref neu gymuned ar gyfer yr ardal a wasanaethir gan/y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu gan unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi |
| Corff llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynigiwr o'r farn ei bod hi'n debygol yr effeithir arnynt gan y cynnig. | Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol y mae'n bosibl yr effeithir arnynt gan gynnwys y Mudiad Meithrin. Hefyd, yr holl Leoliadau /Darparwyr Blynyddoedd Cynnar Preifat/Gwirfoddol Cofrestredig ym Mlaenau Gwent; |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, Partneriaethau Datblygu Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar lle y bônt yn bresennol | Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth ADY, unrhyw gyrff perthnasol ym maes iechyd neu'r trydydd sector sydd â buddiant |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol (Coleg Gwent) | Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg |

Yn ychwanegol at yr uchod, mae'r canlynol wedi'u cynnwys yn y rhestr ddosbarthu hefyd:

| | |
|---|---|
| Pennaeth pob ysgol a gynhelir gan AALl Blaenau Gwent | Cyfarwyddiaethau eraill Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Holl Aelodau Etholedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion Blaenau Gwent |
| Y Gwasanaeth Gyrfaoedd | Llyfrgelloedd |
| Darparwyr gofal plant | SNAP Cymru |

## Atodiad 2 – Cymuned Ddysgu Abertyleri, Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Ffordd strwythuredig i'r Cyngor ddeall yn llawn beth yw goblygiadau ein penderfyniadau a pha un a ydynt yn niweidio neu'n gwahaniaethu yn erbyn grwpiau neu rannau penodol o'r gymuned yw Asesiadau o'r Effaith ar y Gymuned. Maent yn ein helpu i ystyried effaith penderfyniadau a pholisïau'r Cyngor o fewn a rhwng cymunedau yn fwy cyffredinol. Bydd y broses o Asesu'r Effaith ar y Gymuned yn sicrhau bod ein proses benderfynu'n gadarn ac yn ystyried yr effeithiau ar yr holl gymunedau ym Mlaenau Gwent gan sicrhau eu bod yn cael eu hystyried yn llawn ym mhrosesau penderfynu'r Cyngor.

Trwy gynnal asesiadau o'r effaith, mae'r Cyngor yn gweithio i hybu cydraddoldeb i holl ddefnyddwyr ein gwasanaethau, ein holl gyflogeion a'r gymuned ehangach a wasanaethir gennym.

Mae Cymuned Ddysgu Abertyleri wedi'i lleoli yn Ward De Ebwy Fach. Gellir gweld proffil y ward trwy glicio ar y ddolen ganlynol: Abertillery (Blaenau Gwent, Wales / Cymru, United Kingdom) - Population Statistics, Charts, Map, Location, Weather and Web Information

Mae gan Ward De Ebwy Fach nifer o ardaloedd o amddifadedd yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2025) ac mae Cwmtyleri yn y 21% - 30% o ardaloedd mwyaf amddifadus. MALIC

## Datblygiad Arfaethedig

Os caiff ei gymeradwyo, bydd yr opsiwn a ffefrir, sef cau Campws Cymuned Ddysgu Abertyleri yn Heol Roseheyworth, yn cael ei roi ar waith erbyn mis Medi 2027. Bydd disgyblion a ddadleolir o'r campws uchod yn bwydo i mewn i'r campysau cynradd a fydd yn weddill. Bydd gweithgareddau pontio'n cael eu cynllunio rhwng campysau er rhwyddineb i'r disgyblion. Bydd y lleihad yng nghapasiti'r ysgol yn sicrhau cynaliadwyedd yr ystâd ysgolion. Felly, ar y cyfan, mae hyn yn rhoi capasiti llai i'r ysgol o 210 o leoedd ar y cyfan.

**Cyfran y Disgyblion:**

Mae cynnig y Cyngor yn ceisio sicrhau amgylchedd dysgu o ansawdd da yn barhaus ar gyfer disgyblion yn ein hystâd ysgolion, yn bennaf Cymuned Ddysgu Abertyleri. Gall y ffigyrau o ran nifer y ceisiadau am leoedd Meithrin/Derbyn gael eu priodoli i niferoedd gostyngol y babanod sy'n cael eu geni. Trwy leihau capasiti'r Gymuned Ddysgu, bydd y Cyngor yn gallu derbyn disgyblion mewn llai o gampysau cynradd. Fel y gwelwch o'r data a gyflwynir yn y ddogfen ymgynghori mae poblogaeth yr ysgol ar y cyfan wedi lleihau 27.014% rhwng 2020 (845) a 2025 (615) a dim ond 119 o ddisgyblion o oedran ysgol statudol sydd ar y gofrestr yng nghampws Heol Roseheyworth. Fe godwyd yr adeilad ar gyfer 210 o leoedd.

**Cyfleusterau a/neu'r gwasanaethau a gynigir ar hyn o bryd**

Cynigir y cyfleusterau canlynol yng Nghampws Heol Roseheyworth:

- Gofal plant preifat
- ystafelloedd dosbarth
- mannau ymneilltuo
- neuadd fwyta/ffreutur

Bydd y ddarpariaeth/gwasanaethau uchod yn peidio â bodoli ar gyfer Campws Heol Roseheyworth, a bydd adeilad yr ysgol yn mynd yn ôl i mewn i'r Portffolio Addysg ar gyfer defnydd addysgol.

**Amser Teithio**

Pe bai'r cynnig yn cael ei roi ar waith, ni fyddai rhyw lawer o effaith ar bellterau teithio ar gyfer disgyblion presennol. Mae campysau Heol Roseheyworth a Stryd Tyleri ill dau yn gyfnodau cynradd ar gyfer Campws Uwchradd Cymuned Ddysgu Abertyleri ar Stryd Alma sydd yn union gyferbyn â champws Stryd Tyleri a chanolfan hamdden Abertyleri.

Mae'r pellter rhwng campws Heol Roseheyworth a Champws Stryd Tyleri yn llai nag 1.2 milltir, sydd oddeutu 4 munud yn y car/ar fws. Nodir y bydd y pellterau/amseroedd teithio yn cynyddu ar gyfer y disgyblion hynny a fydd yn pontio i Gampws Stryd Tyleri.

**Sut fyddai rhieni a disgyblion yn ymgysylltu pe bai'r cynnig yn cael ei gytuno?**

Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd proses bontio effeithiol ac esmwyth i sicrhau na fyddai rhyw lawer o darfu os o gwbl pe bai'r cynnig i leihau capasiti Cymuned Ddysgu Abertyleri'n cael ei roi ar waith trwy gau Campws Cynradd Heol Roseheyworth.

Bydd rhieni/gofalwyr a disgyblion yn cael gwybodaeth berthnasol i'w cynorthwyo i ddeall y cynnig a'r cymorth mwyaf priodol y gallant ei gynnig i'w plant pe bai cyfnod pontio. Bydd yr ysgol hefyd yn cydweithio gyda gwasanaethau eraill a, lle y bo angen, yn adnabod teuluoedd y gall fod arnynt angen cymorth ychwanegol. Bydd ymgysylltu â rhieni a'r gymuned yn dal i fod yn flaenoriaeth allweddol trwy gydol y broses hon.

**Y goblygiadau ehangach y byddai'r newidiadau'n eu dwyn ar gyfer darpariaethau cludiant cyhoeddus.**

Ni ddisgwylir i'r cynnig ddwyn unrhyw oblygiadau arwyddocaol ar gyfer darpariaeth cludiant cyhoeddus yn yr ardal. Ceir gwasanaethau bysiau lleol gyda'r gwasanaeth 1b sydd wedi'i amserlennu'n rhedeg bob dydd rhwng 7:50am a 17:35pm.

**Materion ehangach o ran diogelwch cymunedol.**

Byddai'r cynnig yn cael rhywfaint o effaith uniongyrchol ar y gymuned ehangach o safbwynt adeiladau oherwydd:

- Bydd adeilad yr ysgol yn cau ac yn aros o fewn y portffolio addysg.
- Byddai'n rhaid adleoli'r ddarpariaeth gofal plant
- Ni fyddai'r adeilad yn gallu lletya cyfarfodydd na bod yn hygyrch i'r gymuned ehangach.

Ni ragwelir unrhyw faterion diogelwch arwyddocaol. Fodd bynnag, byddai'r adeilad yn wag nes bod y Cyngor yn cynnig defnydd arall at ddibenion addysgol eraill.

Rhagwelir rhai materion diogelwch; bydd y rhain yn cael eu lliniaru trwy fecanweithiau'r gwasanaeth Addysg i ddiogelu adeiladau yn ei bortffolio.

**Beth fyddai'r effaith ar iechyd a llesiant?**

Gan bod y campws hwn yn rhan o Gymuned Ddysgu ehangach Abertyleri, nid oes niwed arwyddocaol i iechyd a llesiant disgyblion. Pe bai'r broses bontio ar gyfer disgyblion yn rhedeg yn esmwyth, byddai'r holl wasanaethau a gynigir i ddisgyblion trwy ymgysylltiad mewn ysgolion yn cael eu gweithredu ar gampysau unedig Stryd Tyleri a'r Chwe Chloch.

## Asesiad o'r Effaith ar Gludiant

Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i asesu anghenion teithio dysgwyr dan 19 oed. Yn ychwanegol at y plant hynny sy'n gymwys i gael darpariaeth cludiant am ddim am eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwystra, mae'r Cyngor dan rwymedigaeth gyfreithiol i asesu anghenion dysgu dygwyr sy'n cerdded i'r ysgol. Mae'n debygol y bydd effaith ar gludiant a theithio; fodd bynnag, bydd unrhyw oblygiadau ar gyfer trefniadau cludiant yn fwy cadarnhaol os bydd y Cyngor yn diwallu anghenion y plant.

## Asesu'r Effaith ar Staff

Bydd goblygiadau ac effaith uniongyrchol ar gyfer staff presennol dros holl Gymuned Ddysgu Abertyleri. Gallai hyn fod ar ffurf colli swyddi, a/neu staff addysgu'r ysgol yn symud o amgylch y campysau. Bydd yr adran Datblygu Sefydliadol yn cynnal ymgynghoriad ystyrlon ag unrhyw staff yr effeithir arnynt a'u hundebau llafur cydnabyddedig ynghylch effaith bosibl a chanlyniad yr ymgynghoriad statudol.

## Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol

Yng Nghymuned Ddysgu Abertyleri mae 2 ganolfan adnoddau, y naill ar y campws uwchradd a'r llall yn y lleoliad cynradd ar Gampws Heol y Chwe Chloch. Mae'r cynnig hwn yn ymdrin yn benodol â materion capasiti yn y brif ysgol ac ni fydd yn cael unrhyw effaith ar y Canolfannau Adnoddau Dysgu yn y Gymuned Ddysgu.